

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:

24/2017

DYDDIAD CYHOEDDI:

12/04/2017

Gwerthusiad Cymunedau am Waith

Rhan 1: Theori newid a model rhesymeg

Gwerthusiad Cymunedau am Waith

Becci Newton, Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth ac
Einir Burrowes, Dateb/OB3

Barn yr ymchwilydd yw'r farn a geir yn yr adroddiad hwn, ac nid o anghenraid
farn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Dr Semele Mylona

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ebost: Semele.Mylona@wales.gsi.gov.uk

Tabl cynnwys

Geirfa	2
1 Cyflwyniad	3
Theori newid	3
Esbonio theori newid Cymunedau am Waith	4
2 Cymunedau am Waith	5
Targedau'r Rhaglen	9
3 Y Cyd-destun Polisi a'r Materion y Bwriedir i CaW fynd i'r afael â Nhw ...	10
Y cyd-destun polisi.....	10
Y materion y bwriedir i CaW fynd i'r afael â nhw.....	13
4 Y theori newid.....	23
Deilliannau'r rhaglen	23
Y 'Sbardunau Newid' y disgwylir iddynt arwain at ddeilliannau	25
Theori Newid/Modelau Rhesymeg Cymunedau am Waith	38
Cywirdeb Theori Newid CaW.....	42
Goblygiadau'r theori newid o ran yr ymchwil.....	43
Cyfeiriadau.....	47

Rhestr o ffigurau

Ffigur 2.1: Siwrnai'r cyfranogwr.....	6
Ffigur 4.1: Model Cyffredinol Theori Newid Cymunedau am Waith.....	37
Ffigur 4.2: Echel Blaenoriaeth 1 Cymunedau am Waith – Trechu Tlodi trwy Ddatblygu Cynaliadwy – Model y Theori Newid.....	38
Ffigur 4.3: Echel Blaenoriaeth 3 Cymunedau am Waith 3 – Cyflogaeth a Chyflawniad Ieuenctid – Model y Theori Newid	39

Geirfa

ALMP	Polisi Marchnad Lafur Weithgar
BME	Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig
CF	Cymunedau yn Gyntaf
CaW	Cymunedau am Waith
DWP	Yr Adran Gwaith a Phensiynau
EA	Cynghorydd Cyflogaeth
ESA	Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
ESF	Cronfa Gymdeithasol Ewrop
UE	Undeb Ewropeaidd
EW	Dwyrain Cymru
IB	Budd-dal Analluogrwydd
ICC	Canolfannau Plant Integredig
JCP	Canolfan Byd Gwaith
All	Awdurdodau Lleol
LDB	Corff Cyflawni Arweiniol
NEET	Pobl nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant
PEA	Cynghorydd Cyflogaeth i Rien
SEA	Cynghorydd Cyflogaeth Arbenigol
WCA	Asesiad Gallu i Weithio.
MALIC	Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru
WWV	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd
WRA	Gweithgaredd sy'n Gysylltiedig â Gwaith
WRAG	Grŵp Gweithgaredd sy'n Gysylltiedig â Gwaith

1 Cyflwyniad

- 1.1 Ym mis Medi 2016, penododd Llywodraeth Cymru (LIC) OB3, Dateb, yr Uned Pobl a Gwaith a'r Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth i gyflawni gwerthusiad o'i rhaglen Cymunedau am Waith (CaW), sef darpariaeth marchnad lafur weithgar (ALMP) a gynorthwyir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF).
- 1.2 Cyflawnir y gwerthusiad mewn tri cham rhwng Hydref 2016 ac Ionawr 2018. Mae'r gwaith yn cychwyn gydag esboniad o theori newid a model rhesymeg y rhaglen CaW, a dyna yw sail yr adroddiad hwn. Bydd dau adroddiad pellach (a gynhyrchir ym Mehefin 2017 ac Ionawr 2018) yn archwilio'n fanwl sut y rhoddir y rhaglen ar waith, y cynnydd a wnaed yn erbyn y targedau ac effeithiau CaW ar y cyfranogwyr.
- 1.3 Yn yr adroddiad hwn rydym:
 - yn cyflwyno'r theori newid a'r dull a ddefnyddir i esbonio theori newid CaW
 - yn cyflwyno CaW ac yn disgrifio sut y disgwylir iddo weithredu (pennod 2)
 - yn pennu cyd-destun y polisi a'r anghenion y mae gofyn i CaW fynd i'r afael â nhw (pennod 3)
 - yn trafod theori newid CaW a'i oblygiadau o ran y gwerthusiad (pennod 1).

Theori newid

- 1.4 Dull o gynllunio a gwerthuso, sy'n dechrau gyda chlustnodi anghenion a disgrifio'r newid y mae angen ei gyflawni i fynd i'r afael â'r anghenion hynny, yw theori newid. Mae'n darparu fframwaith i esbonio sut y disgwylir i weithgareddau sbarduno newid ac arwain at wireddu deilliannau ac effeithiau. Mae'n caniatáu ar gyfer disgrifio rhagdybiaethau am gysylltiadau achosol disgwyliedig rhwng gweithgareddau a deilliannau, a'r pethau neu'r amodau y mae angen eu sefydlu er mwyn i'r newid dymunol ddigwydd.

- 1.5 Mae theori newid yn cychwyn gyda cham esboniadol sy'n arwain at ddatblygu model sy'n dangos sut y mae ymyrraeth i fod i weithio. Dyma'r sail ar gyfer asesu a yw'r ymyrraeth yn gwneud synnwyr yng ngoleuni profiad a dysgu o raglenni cyffelyb ai peidio. Wedyn mae'n darparu strwythur i asesu a yw ymyrraeth yn gweithio yn ôl y disgwyl ai peidio, gan glustnodi ei effeithiau ar y bobl a dargedir. Mae'n darparu mecanwaith i glustnodi lle nad aeth pethau yn ôl y disgwyl hefyd, ac i ddeall graddfa, natur, achosion a goblygiadau unrhyw ddargyfeiriad.

Esbonio theori newid Cymunedau am Waith

- 1.6 Roedd cam cyntaf y gwaith o esbonio theori newid CaW yn cynnwys adolygu cynlluniau busnes y rhaglen (gan gynnwys y tablau rhesymeg), a deunyddiau eraill oedd yn ymwneud â dyluniad y rhaglen, yn ogystal â strategaethau Llywodraeth Cymru ar themâu fel tlodi a sgiliau, a gwerthusiadau o raglenni blaenorol ym maes creu marchnad lafur weithgar. Nod hyn oedd sicrhau cynefindra llwyr â bwriadau'r polisi. Ceir cyfeiriadau at y dogfennau a adolygwyd ar ddiwedd yr adroddiad hwn.
- 1.7 Ynghyd â'r adolygiad, cyflawnwyd cyfweiliadau â 14 o randdeiliaid a lluniwyr polisi. Roedd rhai o'r rhain wedi bod yn aelodau o dîm dylunio gwreiddiol bychan CaW, ond roedd y mwyafrif ohonynt wedi dod i gysylltiad yn ddiweddarach yn ystod y broses sefydlu, ac ar gamau cynnar yng ngweithrediad CaW. Roedd y cyfweiliadau'n cwmpasu rhai o'r theorïau a'r rhagdybiaethau y tu ôl i ddyluniad CaW, ond roeddent yn canolbwyntio'n bennaf ar brofiadau ymarferol am ei gyflawniad hyd yn hyn. Yn ogystal roeddent yn trafod disgwyliadau'r bobl a oedd yn llunio'r polisiâu a'r rhanddeiliaid o ran cyflawniad a deilliannau, ac a oedd y rhain yn gwahaniaethu yn seiliedig ar ddaearyddiaeth, blaenoriaeth neu wahanol grwpiau.
- 1.8 Cyfunwyd y gwaith yma i amlygu'r prif ragdybiaethau a ddylanwadodd ar ddyluniad CaW ac a nodir ym model drafft y theori newid a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn. Y bwriad yw bod hyn yn gweithredu fel meincnod ar gyfer y gwaith gwerthuso sylfaenol sy'n cwmpasu allbwn, deilliannau ac effeithiau cynnar.

2 Cymunedau am Waith

2.1 Mae CaW yn rhan o'r rhaglen weithgarwch a ariennir o dan Raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) 2014-20 ar gyfer Dwyrain Cymru (EW), a'r Gorllewin, a'r Cymoedd (WWV). Mae'n alinio'n agos â strwythurau ariannu'r ESF a chafodd ei ddylunio i gyd-fynd â nhw. Mae'n ymrannu'n ddwy brif flaenoriaeth:


- Echel Blaenoriaeth 1: 'trechu tlodi trwy gyflogaeth gynaliadwy'. Yn fwy manwl, nod CaW yw mynd i'r afael ag Amcan Penodol 1.1 o Raglen EW, ac Amcan Penodol 1.2 o Raglen WWV, sef 'cynyddu cyflogadwyedd pobl economaidd anweithredol a phobl ddi-waith tymor hir sydd dros 25 oed ac sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth' (Llywodraeth Cymru 2104b, t.50) (Llywodraeth Cymru, 2014a, t.62)
- Blaenoriaeth 3: 'cyflogaeth ieuenctid' yn Rhaglen EW a 'chyflogaeth a chyflawniad ieuenctid' yn Rhaglen WWV. Yn fwy penodol, mae CaW yn ceisio mynd i'r afael ag Amcan Penodol 3.1 o'r ddwy raglen, sy'n anelu at 'leihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)' (Llywodraeth Cymru, 2014b, t.95) (Llywodraeth Cymru, 2014a, t.122).

2.2 Y bwriad hefyd yw i CaW fynd i'r afael â themâu trawsbynciol yr ESF sef cyfleoedd cyfartal a prif-ffrydio rhywiol; datblygu cynaliadwy; a threchu tlodi a dieithrwch cymdeithasol. Mae CaW yn targedu'r bobl hynny sydd bellaf o'r farchnad gwaith, ac sydd felly mewn perygl sylweddol o dlodi a dieithrwch cymdeithasol. Er na phennwyd targedau penodol ar gyfer grwpiau penodedig, nod y rhaglen yw ymgysylltu dynion a menywod sydd o dan anfantais yn y farchnad lafur am nad oes unrhyw, neu fawr ddim sgiliau ganddynt, am fod ganddynt salwch sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, am eu bod o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BME), am fod ganddynt gyfrifoldebau gofalu neu ofal plant, am eu bod o aelwydydd heb waith ac am eu bod dros 54 oed ac yn economaidd anweithgar. Mae cynlluniau busnes CaW yn datgan y bydd y rhaglen yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal, er enghraifft trwy helpu 'cyfranogwyr,

gwrywaidd a benywaidd, i sicrhau a chynnal cyflogaeth mewn meysydd anhraddodiadol' (Llywodraeth Cymru, 2015a, t.22) a thrwy ymgysylltu'n 'rhagweithiol' 'cyfranogwyr â salwch sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, gan hyrwyddo patrymau gwaith amgen, newid ddisgwyliadau cyfranogwyr o ran cyflogaeth... fel ffordd o oresgyn rhwystrau i gyflogaeth sy'n seiliedig ar iechyd' (Llywodraeth Cymru, 2015a, t.23). Yn ogystal, mae'r cynlluniau busnes yn nodi y bydd CaW 'yn cydweithio'n agos â thimau economaidd Awdurdodau Lleol a thimau ymgysylltu cyflogwyr Canolfan Byd Gwaith (JCP) wrth glustnodi cyfleoedd i osod cymalau cyfiawnder cymdeithasol mewn contractau lleol graddfa fawr' (Llywodraeth Cymru 2015a, t.23).

- 2.3 Mae CaW yn adeiladu ar fodelau a strwythurau sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf, i gynnig cymorth i drechu tlodi yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Mae'n tynnu hefyd ar y gwersi a ddysgwyd o ran beth sy'n gweithio yn seiliedig ar raglenni blaenorol fel Awyddus i Weithio ac Esgyn.
- 2.4 Mae pob un o'r tri grŵp o gyfranogwyr¹ yn cyrchu'r rhaglen yn yr un modd, ac mae'r cymorth y maent yn ei gael wedyn yn cael ei gyflunio mewn modd tebyg (gweler Ffigur 2.1).

Ffigur 2.1: Siwrnai'r cyfranogwr



¹ Y ddau grŵp Blaenoriaeth 1 (pobl ddi-waith yn y tymor hir a phobl economaidd anweithgar yn y tymor hir) a'r grŵp Blaenoriaeth 3 (pobl ifanc sy'n NEET)

- 2.5 Gall timau clwstwr Cymunedau yn Gyntaf, Darparwyr y Sector Cyflogaeth, Canolfan Byd Gwaith neu'r trydydd sector gyfeirio unigolion at CaW. Mae staff rheng flaen CaW yn chwarae rhan ragweithiol wrth adnabod ac ymgysylltu â darpar-gyfranogwyr hefyd, a hynny'n aml wrth weithio gyda'r sefydliadau eraill hyn, a thrwy ymgysylltiad uniongyrchol mewn cymunedau.
- 2.6 Tynnir sylw darpar-gyfranogwyr at CaW trwy ymgyrch farchnata ar ffurf taflenni, posteri a newyddlenni dan frand CaW. Caiff staff CaW sydd ar secondiad gan JCP ddefnyddio eu cysylltiad â systemau TG Canolfan Byd Gwaith i dargedu hawlwyr mathau penodol o fudd-daliadau hefyd. Yn ogystal, gall staff CaW fynychu digwyddiadau yn y gymuned a ffeiriau swyddi i hyrwyddo'r rhaglen yn bersonol (Llywodraeth Cymru, 2015b).
- 2.7 Lleolir staff CaW yn safleoedd Cymunedau yn Gyntaf, mewn Canolfannau Plant Integredig, neu mewn 'canolfannau priodol tebyg yn y clystyrau Cymunedau yn Gyntaf' (Llywodraeth Cymru, 2015b). Ffactor sydd wedi cael ei 'ddylunio' yn bwrpasol i'r rhaglen yw hwn, am fod y rhain yn 'frandiau' hysbys y mae pobl yn ymddiried ynddynt mewn cymunedau lleol, ac mae Llywodraeth Cymru'n credu y dylai hyn leihau'r rhwystrau i gyfranogaeth, am fod gan gyfranogwyr ffydd yn y canolfannau hyn. Mae yna dystiolaeth o raglenni blaenorol bod y rhagdybiaeth yma yn un gadarn (gweler, er enghraifft, Gwerthusiadau Esgyn, Awydd i Weithio a Chymorth Ymgynghorol JCP mewn Canolfannau Plant Integredig yng Nghymru).
- 2.8 Yn ogystal, mae staff o gyrff lleol cyfredol (Cynghorwyr Cyflogaeth a Chynghorwyr Cyflogaeth i Rieni o JCP, a Gweithwyr Brysbennu a Mentoriaid o Awdurdodau Lleol (ALI) a Chyrff Cyflawni Arweiniol (LDBs))² wedi cael eu haseinio dros dro i weithio ar CaW. Ar y cyfan, mae hyn yn golygu bod Cynghorwyr/Mentoriaid CaW eisoes yn brofiadol wrth ddarparu cymorth o'r math yma, a bod ganddynt wybodaeth am ardaloedd a marchnadoedd llafur lleol a ddylai helpu i leihau faint o

² Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf

amser y mae'n ei gymryd i'r rhaglen fwrw gwreiddiau, a'r costau cysylltiedig.

2.9 Mae cyfranogaeth yn CaW yn wirfoddol. Felly, rhagdybir bod cyfranogwyr am weithio, a'u bod am ymgymryd â'r cymorth sydd ar gael i'w ddatblygu tuag at y farchnad lafur. Mae hyn yn awgrymu bod gan y cyfranogwyr agwedd sy'n agored i ddatblygu tuag at y farchnad lafur wrth ymuno â CaW.

2.10 Daw'r ffurflenni cyfeirio i law'r tîm brysbennu sy'n categoreiddio'r cyfranogwyr fel a ganlyn:

- 0-6 mis i ffwrdd o'r byd gwaith
- 6-12 mis i ffwrdd o'r byd gwaith
- 12+ i ffwrdd o'r byd gwaith³.

2.11 Bwriedir i'r categoreiddio yma bennu pwy sy'n darparu eu cymorth, a dwyster y cymorth sydd ei angen arnynt. Caiff Cynghorwyr Cyflogaeth (Cynghorwyr) eu haseinio i gynorthwyo'r rhai yr ystyrir eu bod hyd at 12 mis i ffwrdd o gyflogaeth, a Mentoriaid fydd yn cynorthwyo'r rhai sydd fwy na 12 mis i ffwrdd o'r byd gwaith. Nododd y rhanddeiliaid a fu ynghlwm wrth y cyfweiliadau mai rhywbeth a ychwanegwyd yn hwyr yn ystod proses ddylunio'r rhaglen oedd y swyddogaeth brysbennu . Hwn hefyd yw'r nodwedd a ddenodd y safbwyntiau mwyaf cymysg o ran ei manteision a'i heffeithiolrwydd ymhlith y rhanddeiliaid strategol.

2.12 Mae'r Cynghorwyr a'r Mentoriaid yn rheoli eu beichiau gwaith eu hunain, ac maent yn gyfrifol am arwain eu hymyraethau rheolaidd â chyfranogwyr. Maent yn cyflawni 'asesiadau diagnostig manwl' er mwyn pennu anghenion a rhwystrau'n fanwl, ac yn cynllunio cymorth i fynd i'r afael â'r anghenion hynny, gan eu dogfennu mewn cynlluniau gweithredu (cynlluniau busnes CaW)⁴.

2.13 Y bwriad yw bod y cynghorwyr yn cynnig cymorth sy'n gysylltiedig â gwaith. Bydd hyn yn cynnwys cyflawni 'cyfrifiadau gwell eich byd',

³ Yn ystod y broses o ddrafftio'r adroddiad hwn, pwysleisiodd y bobl a oedd yn gyfrifol am lunio polisiau bod rhai o'r systemau hyn yn dal i fod yn y broses o gael eu datblygu.

⁴ Yn ystod y broses o ddrafftio'r adroddiad hwn, pwysleisiodd y bobl a oedd yn gyfrifol am lunio polisiau bod rhai o'r systemau hyn yn dal i fod yn y broses o gael eu datblygu.

cyfeirio pobl at gyrsiau hyfforddiant byr, a darparu cymorth wrth chwilio am swyddi ac wrth lunio CVs/ymgeisio am swyddi.

- 2.14 Bwriedir i'r Mentoriaid ganolbwyntio ar rwystrau mwy cymhleth sy'n gofyn am gyfeiriadau at ymyrraeth arbenigol e.e. am broblemau personol (rheoli dicter, cam-drin sylweddau), tai, iechyd meddwl neu rwystrau eraill. Ar y cyfan felly, disgwylir i gymorth y Mentoriaid bara'n hirach na chymorth y Cynghorwyr am fod yr unigolion a gyfeirir atynt fwy na 12 mis i ffwrdd o'r byd gwaith.
- 2.15 Gall cyfranogwyr gyrchu rhaglenni hyfforddiant hyblyg sy'n bodoli eisoes ac sy'n cael eu darparu'n lleol trwy amrywiaeth o sefydliadau. Yn ogystal, lle nad oes darpariaeth briodol ar gael trwy ffynonellau sy'n bodoli eisoes neu ffynonellau'r brif ffrwd, gall cyfranogwyr bwcio rhaglenni hyfforddiant penodol sy'n cael eu darparu gan ACT Ltd, a hynny trwy wasanaeth sy'n cael ei gaffael a'i reoli'n ganolog.
- 2.16 Mae cronfa rwystrau ar gael i helpu cyfranogwyr i oresgyn y rhwystrau terfynol i gyflogaeth, gan eu galluogi i dalu am bethau fel dillad i'w gwisgo i gyfweliad, costau teithio, gofal plant tymor byr ac offer i'w galluogi i ddechrau gweithio.
- 2.17 Bydd y cyfranogwr wedi cwblhau'r rhaglen pan fydd wedi cychwyn cyflogaeth neu addysg amser-llawn, neu pan fydd yn penderfynu nad yw'n dymuno parhau â'r rhaglen. Mae yna opsiwn hefyd i'r Cynghorwyr neu'r Mentoriaid derfynu rhaglenni cyfranogwyr, er enghraifft os ystyrir bod y rhwystrau'n rhy helaeth i'w goresgyn trwy gymorth CaW. Mewn achosion o'r fath, cyfeirir y cyfranogwyr ymlaen am gymorth arbenigol mwy priodol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ofynion penodol o ran am ba hir y gall y Cynghorwyr a'r Mentoriaid weithio gyda'r cyfranogwyr: yn hytrach, anghenion yr unigolyn a'i barodrwydd i ymgysylltu'n adeiladol sy'n pennu hyn.

Targedau'r Rhaglen

- 2.18 Nod CaW yw ymgysylltu â 47,500 o unigolion o'r tri grŵp targed, a datblygu 10,000 ohonynt i mewn i gyflogaeth gynaliadwy erbyn Mehefin 2020.

3 Y Cyd-destun Polisi a'r Materion y Bwriedir i CaW fynd i'r afael â Nhw

- 3.1 Yn y bennod hon, rydyn ni'n trafod cyd-destun polisi CaW ac yn archwilio'r materion neu'r anghenion y bwriedir i'r rhaglen fynd i'r afael â nhw. Mae'r cyd-destun polisi wedi esblygu ers lansio CaW, ac er bod ffocws y bennod hon ar y sefyllfa fel yr oedd yn 2014, pan oedd y rhaglen yn cael ei datblygu, rydym yn cyfeirio at bolisiâu mwy diweddar y mae CaW yn cyd-fynd â nhw hefyd.

Y cyd-destun polisi

- 3.2 Mae Llywodraeth Cymru (2012a, t.1) yn cydnabod bod:
- 'tlodi yn arwain at ganlyniadau gwaeth i unigolion o ran addysg, iechyd ac ymddygiad. Mae tlodi yn golygu costau enfawr i gymdeithas o ran llai o gynhyrchiant economaidd, llai o gydlyniant cymdeithasol a mwy o bwysau ar wasanaethau cyhoeddus fel gwasanaethau plant a gofal iechyd '.
- 3.3 Felly mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ei ymrwymiad i 'drechu tlodi', ac mae'r ymrwymiad hwn yn cyd-fynd ag amcan yr Undeb Ewropeaidd (UE) i dynnu 20 miliwn o bobl ar draws Ewrop allan o dlodi erbyn 2020⁵ (Y Comisiwn Ewropeaidd, 2010).
- 3.4 Mae Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru 2012-16⁶ yn datgan mai'r 'ffordd orau allan o dlodi yw drwy gyflogaeth' a thrwy wella sgiliau unigolion (Llywodraeth Cymru, 2012a, t.3). Yn fwy diweddar, mae Llywodraeth Cymru (2016a, t.12) wedi clustnodi'r 'ganran o'r bobl sydd mewn gwaith' fel dangosydd craidd o gynnydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae Llywodraeth y DU (Swyddfa'r Cabinet, 2010, t.27), sy'n gyfrifol am bolisi lles yng Nghymru, wedi pwysleisio pwysigrwydd cyflogaeth wrth drechu tlodi hefyd:
- 'mae gan blant ar aelwydydd lle mae dau oedolyn mewn gwaith amser llawn debygolrwydd o 1% o fod mewn tlodi, o'i gymharu â

⁵ Mae hyn yn rhan o Strategaeth Ewrop 2020

⁶ Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) wedi disodli'r polisi hwn erbyn hyn

thebygolrwydd o 64% i blant ar aelwydydd â dau riant lle nad yw'r naill oedolyn na'r llall yn gweithio⁷. Mae yna dystiolaeth glir hefyd bod diffyg gwaith yn cyfrannu at afiechyd, anhapusrwydd ac iselder⁸, ac mae pobl sy'n symud i mewn i waith yn tueddu i nodi gwelliannau sylweddol yn eu hiechyd meddwl. Mae cyfnodau o ddiweithdra yn gallu cael effaith negyddol parhaus ar gyflogau hefyd'.⁹

- 3.5 Mae bod heb waith yn effeithio ar deuluoedd pobl sy'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar hefyd. Mae plant sy'n cael eu magu ar aelwydydd heb waith yn llai tebygol o wneud yn dda yn yr ysgol (Hasluck, 2011) ac maent yn fwy tebygol o fod heb waith neu mewn tlodi fel oedolion (Swyddfa'r Cabinet, 2010)¹⁰. Yn y cyd-destun hwn, yng Nghymru heddiw mae yna ffocws cynyddol ar fynd i'r afael â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, sy'n aml yn cyd-fynd yn agos â rhwystrau cymhleth.
- 3.6 Wrth ganolbwyntio'n benodol ar bobl ifanc, dangosodd y Comisiwn ar Ddiweithdra leuenctid (ACEVO, 2012) bod pobl ifanc 16-24 oed sy'n ddi-waith yn fwy tebygol o dreulio mwy o amser allan o waith yn ystod eu hoes, cael eu talu'n llai wrth weithio, bod â lles meddyliol a ffisegol gwaeth, a bod ynghlwm wrth weithgarwch troseddol yn amlach.
- 3.7 At hynny, cynyddodd nifer y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET yn sylweddol yn sgil dirwasgiad 2008, o 17.4 y cant yn 2008, i 23 y cant yn 2012 (Llywodraeth Cymru 2013b). Fodd bynnag, arhosodd cyfran y bobl ifanc 16-18 oedd sy'n NEET¹¹ yn weddol gyson, ar gyfradd o rhwng 10

⁷ Dyfynnu Adran Gwaith a Phensiynau, Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog, 2008/09

⁸ Dyfynnu Black (2008), Adolygiad y Fonesig Carol Black o lechyd poblogaeth oedran gweithio Prydain, TSO

⁹ Dyfynnu Gregg a Tominey (2005) The wage scar from youth unemployment, Labour Economics, 12; a Gregory a Jukes (2001) Unemployment and subsequent earnings: estimating scarring among British men, 1984-1994, Economic Journal, 111

¹⁰ Dyfynnu Gregg, Harkness, a Machin (1999), Child poverty and its consequences, Sefydliad Joseph Rowntree; a Such a Walker (2002) 'Falling Behind? Research on transmitted deprivation', Benefits

¹¹ Er bod yna bolisiau gwahanol o ran cyfranogaeth mewn addysg a hyfforddiant ar ôl 16 oed yng Nghymru a Lloegr - â chyfranogaeth yn hanfodol rhwng 16 ac 18 oed yn Lloegr, ond nid yng Nghymru - mae'n bosibl na fydd lefel ymyrraeth y Ganolfan Byd Gwaith ar gyfer y grŵp oedran yma'n amrywio rhyw lawer rhwng y gwledydd, ac nid yw'r polisi o fudd-daliadau i waith wedi ei datganoli ta beth. Mewn blynyddoedd diweddar, mae DWP wedi mynnu bod y Ganolfan Byd Gwaith yn creu portfolio o waith yn Lloegr i osgoi goblygiadau tymor hir bod yn NEET yn ifanc.

ac 13 y cant dros y blynyddoedd rhwng 1996 a 2012. Mae hyn yn awgrymu bod 'diffyg ymgysylltu ar gyfer y garfan 16-18 yn broblem strwythurol a pharhaus a geir ymhob [sic] sefyllfa economaidd' (Llywodraeth Cymru 2014b; t.8), ac mae'n dangos bod angen targedu ymyraethau cynnar wedi eu teilwra'n arbennig i fynd i'r afael ag anghenion y garfan hon. Nod y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu leuenctid yw sefydlu dulliau 'systematig o nodi'r bobl ifanc hyn y mae angen cymorth arnynt, a sicrhau eu bod yn cael yr help sydd ei angen arnynt i'w rhoi ar ben ffordd' (Llywodraeth Cymru, 2013a, t.2). Mae'r Fframwaith yn pwysleisio'r angen am 'system gyflenwi sy'n canolbwyntio ar anghenion pobl ifanc, ac yn rhoi rolau a chyfrifoldebau clir i'r amrywiaeth o sefydliadau sy'n gweithio gyda'r bobl ifanc (ibid, t.6).

- 3.8 Yn olaf, cyfeiriodd Sefydliad Joseph Rowntree (2013, t.12) at rôl swyddi cyflogedig wrth ddarparu 'statws, lles, rhwydweithiau cymdeithasol a chyfleoedd i gynyddu sgiliau, ynghyd ag incwm'.
- 3.9 Mae 'pwyslais cadarn ar bwysigrwydd gwaith, a'r neges y gall gwaith ddarparu llwybrau allan o dlodi' ym mholisiau lles diweddar y DU, ynghyd ag 'ymdrechion i symleiddio'r system budd-daliadau a threthi i annog pobl i gychwyn gwaith cyflogedig neu gynyddu eu horiau er mwyn gwneud i waith dalu' (Sefydliad Joseph Rowntree 2013, t.11). Er enghraifft, un ymyrraeth yw'r Rhaglen Waith, a'i nod yw cynorthwyo amrywiaeth o bobl (e.e. y bobl hynny sydd, neu sydd mewn perygl i fod yn ddi-waith yn y tymor hir, pobl anabl â phobl ag afiechydon) 'i gael gwaith parhaus' (DWP 2012, t.2); a nod y Credyd Cynhwysol (a gaiff ei gyflwyno ymhellach dros y misoedd nesaf fel rhan o'r Ddeddf Diwygio Lles) yw symleiddio'r system fudd-daliadau, a hwyluso pontio i waith a rhwng swyddi. Yn fwy diweddar, mewn datganiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, dywedodd y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth y bydd Cynllun Cyflogadwyedd arfaethedig Llywodraeth Cymru'n pwysleisio pwysigrwydd nid yn unig symud pobl i mewn i waith, ond sicrhau eu bod 'yn cael gwaith gweddus a chynaliadwy a'u bod yn symud ymlaen i, ac o fewn, swyddi diogel' hefyd (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2016, eitem 4).

- 3.10 Datblygwyd y rhaglen CaW yn erbyn y cefndir hwn, gyda'r nod cyffredinol o fynd ati'n rhagweithiol i ymgysylltu'r bobl hynny sydd bellaf o'r farchnad lafur, a gellir dadlau mai'r rhain hefyd yw'r bobl sy'n cael eu gwasanaethu waethaf gan bolisiau lles Llywodraeth y DU.
- 3.11 Mae dogfennau cynllunio a rhaglennu CaW yn clustnodi tri grŵp targed penodol:
- pobl economaidd anweithgar
 - pobl sy'n ddi-waith yn y tymor hir
 - unigolion 16-24 oed sy'n perthyn i'r categori NEET.
- 3.12 Mae'r rhain yn adlewyrchu grwpiau blaenoriaeth Rhaglenni ESF 2014-20 yng Nghymru: mae pobl economaidd anweithgar a phobl sy'n ddi-waith yn y tymor hir yn dod o fewn Blaenoriaeth 1, ac mae unigolion 16-24 oed sy'n NEET yn dod o fewn Blaenoriaeth 3 Rhaglenni ESF EW a WWV. Mae rhannu CaW yn ddwy Flaenoriaeth yn adlewyrchu'r angen am sicrhau cysondeb â strwythurau ESF, ond mae hefyd yn sicrhau bod buddsoddiad ESF yn alinio'n gliriach â pholisi Llywodraeth Cymru fel y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid (2013a) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2016b).
- 3.13 Wrth wraidd dyluniad CaW mae'r cysyniad bod sefydliadau cyhoeddus a'r trydydd sector yn gallu cydweithio i ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion unigolion, ac y dylent wneud hynny. Mae hyn yn gyson ag ethos Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n pennu sut y dylai cyrff cyhoeddus penodol 'gydweithio er mwyn gwella lles Cymru' (Llywodraeth Cymru, 2016e, t3).

Y materion y bwriedir i CaW fynd i'r afael â nhw

- 3.14 Nod tymor-hir CaW yw gwireddu gostyngiad yn nifer yr oedolion sydd heb waith, ac ar wahân, yn y gyfran o bobl ifanc sy'n NEET ar draws Cymru, trwy eu cynorthwyo i mewn i waith cynaliadwy. O ganlyniad, rhagwelir y bydd y rhaglen yn lleihau lefelau'r tlodi parhaus y mae'r cyfranogwyr yn eu hwynebu, a lliniaru'r risg bod cyfranogwyr yn disgyn i dlodi yn y dyfodol.

- 3.15 Mae CaW yn dilyn tueddiad mwy diweddar mewn cynlluniau o fudd-dal i waith sy'n pwysleisio pwysigrwydd sicrhau cyflogaeth gynaliadwy ar gyfer cyfranogwyr; mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys Rhaglen Gwaith DWP a Rhaglen Esgyn Llywodraeth Cymru, sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gyflogaeth y mae'r cyfranogwyr yn ei chael, er enghraifft yn nhermau cyflogau ac oriau gwaith.
- 3.16 Mae'r ffocws yma ar gyflogaeth gynaliadwy yn hytrach na 'chael' gwaith yn amlygu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â diffygion polisïau blaenorol mewn perthynas â sicrhau marchnad lafur weithgar, a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar symudiad cyflym i mewn i gyflogaeth. Mae hyn yn gallu gadael unigolion yn agored i 'syndrom drws troi' am fod deilliannau sy'n seiliedig ar gychwyn cyflogaeth yn gyflym yn aml yn rhai byrdymor (Meager et al, 2014, yn dyfynnu Meadows (2006), adran 6.2).
- 3.17 Nid yw sicrhau cyfnodau byr o gyflogaeth yn mynd i'r afael â'r nod tymor-hir o leihau lefelau tlodi. Yn hytrach, gall symud rhwng cyflogaeth a diweithdra ddwysáu'r ansicrwydd ariannol unigolion sydd eisoes mewn tlodi neu sydd mewn perygl o dlodi. Er enghraifft, mae tystiolaeth bod llawer o rieni unigol yn mynd i mewn ac allan o waith cyflogedig heb greu gwell sefydlogrwydd ar gyfer eu teuluoedd (Green a Hasluck, 2007). Mae CaW felly'n rhoi pwyslais ar ddeilliannau cyflogaeth parhaus tymor hir ag effeithiau parhaus ar gyfer y cyfranogwyr.
- 3.18 Nid yw cyflogaeth gynaliadwy o reidrwydd yn golygu bod unigolyn yn aros yn yr un swydd am gyfnod penodol o amser. Gellid dweud mai nod hyn yw taclu pobl â'r hyder, yr hunan-effeithiolrwydd a sgiliau cyfoes priodol i'w galluogi i fod yn wydn i'r farchnad lafur (Newton et al, 2016). Mae hyn yn golygu y dylai'r cyfranogwyr fod yn gallu ymdopi'n well ag ergydion allanol fel diswyddiad, ac osgoi syrthio nôl i mewn i ddiweithdra tymor hir neu anweithgarwch economaidd, a dibyniaeth ar fudd-daliadau.
- 3.19 Gall cyflogaeth gynaliadwy gyfeirio at ddatblygiad o fewn cyflogaeth hefyd, fel i unigolion sydd â'r sgiliau a'r cymhelliant ymdrechu i gynyddu

eu horiau neu ennill dyrchafiad. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun cyflwyno'r Credyd Cynhwysol, â'r nod o hwyluso prosesau pontio i mewn i waith, ac annog pobl i gynyddu eu cyflogau ar ôl cael cyflogaeth, ac felly lleihau'r perygl o dlodi ac effeithiau tlodi. Yn yr un modd, , awgrymodd y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth yn ddiweddar fod Cynllun Cyflogadwyedd arfaethedig Llywodraeth Cymru'n debygol o bwysleisio datblygiad 'i, ac oddi fewn, swyddi diogel' (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2016, eitem 4).

- 3.20 Fodd bynnag, mae'n nodedig bod nifer y bobl yng Nghymru sy'n dal i fod mewn tlodi (yn ôl y diffiniad o incwm sydd 60 y cant yn is na'r incwm canolrifol), er eu bod mewn gwaith, wedi cynyddu ym mhob grŵp oedran dros y deng mlynedd diwethaf (Tinson a MacInnes, 2015). Er bod nifer y bobl mewn swyddi â chyflogau isel yng Nghymru wedi gostwng yn ddiweddar (a hynny'n rhannol oherwydd y Cyflog Byw Cenedlaethol), mae'n dal i fod tair i bedwar pwynt canrannol yn uwch na chyfradd y DU ar led. Nododd astudiaeth IFS o'r DU yn 2015 mai'r rheswm fwyaf tebygol am gynydd mewn tlodi ymysg pobl mewn swyddi oedd cyflogau'n gostwng.
- 3.21 Mae dau o bob pump o bobl sy'n hawlio'r Credyd Cynhwysol yn y DU mewn cyflogaeth, ac mae Cymru'n fwy dibynnol ar y system les na gweddill y DU. Mae toriadau lles sylweddol ar y gweill yn y DU, a bydd y rhain yn effeithio'n anghyfartal ar bobl ar incwm is, a disgwylir iddynt gynyddu lefelau tlodi absoliwt a chymharol. Mae'r pwysau ar i lawr ar fudd-daliadau a chyflogau mewn gwaith yn golygu na fydd cyflogaeth ar ei ben ei hun o reidrwydd yn ddigon i godi unigolion allan o dlodi.
- 3.22 Disgwylir i'r deilliannau tymor hir fod rhywfaint yn wahanol rhwng y ddwy Flaenoriaeth. Er bod cyflogaeth gynaliadwy'n ddymunol ac yn flaenoriaeth i'r naill a'r llall, mae yna ddisgwyliad uwch y bydd pobl ifanc yn cyflawni hyn trwy ail-ymgysylltu ag addysg a hyfforddiant yn gyntaf, fel eu bod yn ennill cymwysterau fel sylfaen ar gyfer cyrchu cyflogaeth gynaliadwy. Cafodd y Comisiwn Diweithdra leuenctid (ACEVO, 2012) bod caffael cymwysterau sy'n caniatáu mynediad i swyddi o ansawdd gwell yn gallu torri'r cylch o anfantais.

- 3.23 Er mwyn cyflawni'r nod tymor hir o helpu'r cyfranogwyr targed i symud i mewn i gyflogaeth gynaliadwy, mae CaW am ddileu neu liniaru'r rhwystrau sy'n sefyll yn eu ffordd. Yn ôl theori newid CaW, mae angen goresgyn y rhwystrau hyn er mwyn cyflawni nod tymor hir y rhaglen, ond bydd y camau yn y broses yn amrywio o un cyfranogwr i'r llall.
- 3.24 Bydd natur y rhwystrau'n amrywio hefyd: gall cyfranogwyr wynebu rhwystrau uniongyrchol, sy'n gallu bod yn rhwystrau o ran agwedd neu'n rhai seicolegol (e.e. diffyg hyder neu gymhelliant) a/neu'n rhwystrau anuniongyrchol, sy'n dueddol o fod yn fwy ymarferol o ran eu natur (e.e. cyfrifoldebau gofalu neu broblemau ariannol). Fel y mae Daguerre ac Etherington (2009) yn ei nodi, mae rhwystrau anuniongyrchol i gyflogaeth yn dueddol o fod yn gronnol, ac, yn aml iawn, bydd angen i unigolion fynd i'r afael â rhwystrau anuniongyrchol fel cyfrifoldebau gofalu, anhwylderau iechyd, problemau tai a/neu reoli dyledion cyn y gallant ystyried ymgymryd â gweithgareddau a fydd yn eu cynorthwyo i fynd i'r afael â rhwystrau uniongyrchol mwy meddal.
- 3.25 Yn ystod o broses o ddatblygu pedwar cynllun busnes ESF, clustnododd Llywodraeth Cymru'r canlynol fel rhwystrau i gyflogaeth y gallai cyfranogwyr unigol eu hwynebu:
- diffyg hyder a chymhelliant
 - amharodrwydd i gymryd rhan yn narpariaeth y brif ffrwd
 - salwch sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio
 - dibyniaeth ar Fudd-daliadau Lles
 - diffyg neu brinder Sgiliau Sylfaenol a Hanfodol
 - diffyg neu brinder sgiliau digidol
 - diffyg neu brinder sgiliau galwedigaethol neu gymwysterau
 - dyheadau isel neu amcanion afrealistaidd o ran swyddi
 - diffyg sgiliau chwilio am swyddi
 - materion gofal neu ofal plant
 - rhwystrau o ran trafnidiaeth
 - pryderon ariannol / dyledion
 - materion tai

- rhwystrau iaith, a pherthyn i grŵp Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME)¹².

3.26 Mae unigolion yn aml yn wynebu materion niferus sydd weithiau'n gyd-gysylltiedig, er enghraifft, bod â salwch sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, bod yn deulu un rhiant, bod â chyfrifoldebau gofalu eraill a/neu ag ychydig neu dim profiad o gyflogaeth tymor hir. Mae Hasluck (2011, t.18) yn dweud 'lle bo diffyg cyflogaeth yn deillio o anfantaision niferus sy'n gorgyffwrdd, mae llawer o bobl yn colli ffydd ac yn rhoi'r gorau i chwilio am gyflogaeth, ac mae eu diffyg gwaith yn gallu ymwreiddio'. Yn ogystal, mae natur y problemau y mae unigolion yn eu hwynebu yn amrywio yn ôl oedran.

3.27 Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod yna lawer yn gyffredin yn y rhwystrau y mae pob un o'r grwpiau targed yn eu hwynebu. Mae hyn yn dilysu'r penderfyniad i ddatblygu un rhaglen CaW sy'n cynnig gwasanaethau tebyg ar gyfer yr holl gyfranogwyr, yn hytrach na datblygu rhaglenni ar wahân sydd ychydig bach yn wahanol i'w gilydd ar gyfer pobl sy'n economaidd anweithgar ac yn ddi-waith yn y tymor hir (o dan Flaenoriaeth 1), a phobl ifanc sy'n NEET (o dan Flaenoriaeth 3). Mae'r cwmplas ar gyfer arddel dull holistig sy'n canolbwyntio ar y person ac ar gyfer teilwra'r cymorth o fewn 'cynnig' CaW yn darparu'r cyfle i fynd i'r afael â'r rhwystr penodol, neu'n fwy tebygol, y cyfuniad o rwystrau, y mae pob cyfranogwr unigol yn ei wynebu.

3.28 Yn y paragraffau sy'n dilyn, byddwn ni'n cyffwrdd yn fras ar natur a goblygiadau rhai o'r prif rwystrau, a sut y maent yn effeithio ar unigolion. Eto, fodd bynnag, hoffem bwysleisio nad yw'r rhwystrau hyn yn dod ar eu pennau eu hunain yn aml, ac yn amlach na pheidio, mae'r unigolion yn wynebu cyfuniad o sialensiau sy'n gydgyssylltiedig ac yn gydategol.

Diffyg hyder a chymhelliant

3.29 Mae Rhaglen Weithredol ESF EW yn nodi bod 'diffyg hunanhyder' ymysg y rhwystrau sy'n atal llawer o bobl rhag cael swydd. Yn wir, mae

¹² Er y gall perthyn i grŵp BME fod yn nodwedd gynhenid na ellir ei newid, mae'r ESF yn rhoi blaenoriaeth i gyfranogwyr BME ar y sail bod is-setiau allweddol o'r grŵp yma'n wynebu anfantais yn y farchnad lafur.

Waddell a Burton (2006, t.86) yn dadlau 'bod yna lawer o dystiolaeth bod diweithdra estynedig yn brofiad sy'n digalonni ac yn dwyn stigma, sy'n effeithio ar awydd pobl i weithio a'u hunanhyder wrth chwilio am, a chael gwaith'. Yn fwy penodol, nododd Maguire (2015, t.28) bod menywod ifanc sy'n NEET ac yn economaidd anweithgar yn gallu 'bod ar wahân o fewn eu haelwydydd a'u cymunedau, ac oherwydd eu hamgylchiadau, eu bod yn gallu dioddef o ddiffyg hunan-hyder, diffyg hunan-barch a gall materion iechyd meddwl ddechrau codi'. Mae hi'n bosibl bod y pwynt olaf yma'n cyfeirio at bwysigrwydd y dull o fynd ati i gyflawni CaW mewn canolfannau yn y gymuned, a hynny'n benodol wrth dargedu menywod ifanc.

Prinder neu ddiffyg cysylltiad ag asiantaethau cymorth

- 3.30 Gall unigolion sy'n economaidd anweithgar fod â bach iawn o gysylltiad â'r Ganolfan Byd Gwaith, os o gwbl, yn dibynnu ar eu hawl i gael budd-daliadau lles a'u defnydd ohonynt. Er enghraifft, nid yw amodau'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) yn gofyn bod unigolion sy'n anweithgar oherwydd afiechyd yn mynychu cyfarfodydd gyda'r JCP nac yn cyflawni Gweithgarwch sy'n Gysylltiedig â Gwaith (WRA) oni bai eu bod wedi eu haseinio i'r Grŵp Gweithgarwch sy'n Gysylltiedig â Gwaith yn sgil Asesiad Gallu i Weithio (WCA). Hyd yn oed ar ôl eu haseinio i WRAG, gall y disgwyliadau o ran WRA fod yn gyfyngedig (Newton a Sainsbury, ar y gweill). Yn yr un modd, mae rhieni nad ydynt yn gymwys ar gyfer JSA am fod ganddynt bartner mewn gwaith yn annhebygol o ddod i gysylltiad â'r JCP, ac felly maent yn llai tebygol o fod yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael ac o gael eu sbarduno i ystyried cyflogaeth.

Amharodrwydd i gymryd rhan mewn darpariaeth y brif ffrwd / i ymgysylltu

- 3.31 At hynny, mae gan rai pobl gysyniadau negyddol neu maent yn 'ddrwygdybus o'r JCP' ac maent yn osgoi ymgysylltu â'r gwasanaethau sydd ar gael oherwydd hynny (Llywodraeth Cymru, 2012c, t.20). Er mwyn estyn allan at y bobl hynny sydd wedi ymddieithrio o wasanaethau'r brif ffrwd, mae ymyraethau blaenorol wedi ceisio integreiddio Cyngorwyr JCP mewn canolfannau 'anfygythiol' yn y

gymuned. Ymhlith yr esiamplau, mae cynllun peilot y Gwasanaethau sy'n Canolbwyntio ar Waith mewn Canolfannau Plant yn Lloegr, a Gwasanaethau Ymgynghorol y Ganolfan Byd Gwaith mewn clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yng Nghymru. Cafodd gwerthusiad o'r ail o'r cynlluniau hyn (Foley et al, 2012) bod y gwasanaeth integredig wedi bod yn 'arbennig o effeithiol' wrth estyn allan at grŵp o rieni oedd yn 'anodd eu cyrraedd' oedd 'â nifer o rwystrau i gyflogaeth fel cofnodion troseddol, sgiliau sylfaenol gwael, problemau iechyd corfforol neu iechyd meddwl, materion gofal plant a phroblemau dyledion neu gam-drin sylweddau'.

Salwch sy'n cyfyngu ar allu pobl i weithio

- 3.32 Yn ôl yr ONS (2015, t.5), mae pobl ddiwaith (a ddiffinnir yma fel y rhai sydd allan o waith ond sy'n chwilio am waith) yn fwy tebygol o gofnodi salwch cyfyngus tymor hir (LSI) na phobl eraill. Nododd yr ONS hefyd bod y cyfraddau o ran LSI neu anableddau wedi eu cofnodi gan unigolion eu hunain yn uwch ymysg pobl hŷn (t.3), a'u bod yn uwch yng Nghymru nac yn Lloegr neu'r Alban (t.2).
- 3.33 Mae Swyddfa'r Cabinet (2010, t.40) yn nodi 'yn ogystal â dylanwadu ar ansawdd bywyd yn uniongyrchol, mae iechyd hefyd yn gallu effeithio ar i ba raddau y mae pobl yn gallu cyfranogi yn y farchnad lafur ac yn y gymdeithas ar led'. Mae cynlluniau busnes Blaenoriaeth 1 yn clustnodi dau grŵp o ddarpar-gyfranogwyr yn CaW sy'n debygol o fod â salwch sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio: unigolion sydd wedi bod yn ddi-waith yn y tymor hir ac sydd wedi eu datgan yn ffit i weithio trwy Asesiad Gallu i Weithio, a phobl economaidd anweithgar nad ydynt yn hawlio budd-daliadau diweithdra. Mae'r cynlluniau'n awgrymu bod gan unigolion 'sbectwm eang o anhwylderau iechyd', o rai 'mân', 'heb fawr o effaith ar eu rhagolygon cyflogaeth', i 'anhwylderau mwy difrifol sy'n gofyn am gymorth dwys gan fentoriaid i'w deall a'u goresgyn'.

Dibyniaeth ar fudd-daliadau

- 3.34 Mae Swyddfa'r Cabinet (2010, t.33) yn dadlau bod 'dibyniaeth ar les yn creu nifer o gostau ar gyfer unigolion ac ar gyfer y gymdeithas. I unigolion, mae hyn yn gallu gosod pobl ar wahân i weddill y gymdeithas,

ac mae yna dystiolaeth sy'n awgrymu y gallai ffynhonnell yr incwm fod yn bwysicach na lefel yr incwm wrth bennu lefelau'r dieithrwch cymdeithasol. Mae hyn yn bennaf oherwydd ymddieithriad o'r farchnad lafur, sy'n gallu cael effaith ehangach; er enghraifft, po hwyaf y mae pobl yn aros allan o waith, po fwyaf tebygol yw hi y bydd eu hiechyd yn gwaethygu a pho fwyaf o rwystrau i waith a fydd yn datblygu.

Diffyg neu brinder sgiliau a chymwysterau

- 3.35 Mae yna gyffelybiaeth agos rhwng lefel cymhwyster uchaf unigolyn a'r tebygolrwydd eu bod allan o waith neu'n economaidd anweithgar. Er enghraifft, gan dynnu ar ddata cyfrifiad 2011, cafodd yr ONS (2014) bod 'llai na hanner y bobl oedd heb unrhyw gymwysterau mewn cyflogaeth, o'i gymharu ag 8 ym mhob 10 o'r rhai oedd ag o leiaf un cymhwyster'. Adroddodd yr ONS hefyd bod gan dros draean o'r bobl hynny a oedd yn economaidd anweithgar ac heb unrhyw gymwysterau 'salwch tymor-hir neu anabledd' gan awgrymu 'y gallai rhai o'r bobl sy'n perthyn i'r categori hwn ei chael hi'n anodd ennill cymwysterau am resymau sy'n gysylltiedig â'u salwch neu eu hanabledd'. Mae'r pwynt olaf yma'n dangos unwaith eto natur cydgysylltiedig y rhwystrau i gyflogaeth y mae rhai pobl yn eu hwynebu.
- 3.36 Nododd UKCES (2011, t.36) bod 'cyflawniad isel yn yr ysgol yn aml yn esbonio cyfnodau hir o ddiweithdra a/neu anweithgarwch'. Nododd yr un ddogfen hefyd (t.iii) bod yna dystiolaeth glir fod yna gyfyngiadau tynn ar ragolygon cyflogaeth pobl sy'n ymadael ag addysg heb unrhyw gymwysterau neu sydd â chyflogadwyedd neu sgiliau sylfaenol cyfyngedig'. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod pobl ifanc NEET sydd â lefel isel o sgiliau dair neu bedair gwaith yn fwy tebygol o fod allan o waith fel oedolion ifanc na'r rhai sydd â chymwysterau uwch (Smyth a McCoy, 2009). Mae'r bobl hynny sy'n mynd i'r byd gwaith mewn swyddi llai medrus ac maent yn ennill cyflogau is na'u cyfoedion mwy medrus, a'r rhai sydd mewn gwaith sgil isel sydd lleiaf tebygol o gael hyfforddiant, sy'n peryglu parhad cyflogaeth ac yn creu ansicrwydd cymdeithasol (Newton et al., 2005). At hynny, mae 'creithiau oes' yn gallu deillio o fod yn ddi-waith, yn anweithgar neu'n NEET ar oedran ifanc, ac mae hyn yn

gallu effeithio ar allu unigolion i gael eu troed yn y farchnad lafur o gwbl (Bell a Blanchflower, 2009). Ynghyd â hyn, mae unigolion economaidd anweithgar ac sy'n ddi-waith yn y tymor hir yn dueddol o fod â llai o sgiliau, a hynny o ganlyniad uniongyrchol i gyfnodau hir o amser allan o'r farchnad lafur pan nad ydynt yn cael unrhyw hyfforddiant sy'n gysylltiedig â gwaith.

- 3.37 Mae'r cynlluniau busnes ar gyfer elfennau Blaenoriaeth 3 o'r rhaglen yn cyfeirio'n benodol at effaith negyddol 'sgiliau TG isel... a diffyg neu brinder dealltwriaeth am offer a strategaethau er mwyn chwilio am swyddi ar-lein'. Er y gwneir y pwynt yma mewn perthynas â phobl ifanc NEET, gellir dadlau'r un fath am bwysigrwydd sgiliau chwilio am swyddi a sgiliau digidol wrth chwilio am swyddi mewn perthynas â phobl sy'n ddi-waith yn y tymor hir a phobl economaidd anweithgar.

Materion gofalu/gofal plant a rhieni unigol

- 3.38 Mae rhieni'n wynebu rhwystrau o ran cydbwyso gwaith â'u cyfrifoldebau gofalu, a diogelu gwaith sy'n talu'n ddigonol i'w cynnal nhw eu hunain a'u plant. Mae Hasluck a Green (2007) yn dadlau bod hyn yn gofyn am becynnau cymorth hyblyg a gwaith amlasiantaeth, a dyna beth y mae dull holistig CaW yn anelu at ei gyflawni. Dyluniwyd y Rhaglen Esgyn mewn ffordd debyg i fod yn hyblyg ac yn bersonol, yn hytrach na dull o fynd ati sydd yr 'un peth i bawb', a bwriadwyd iddo gael ei gynnal fel y gellid mynd i'r afael â'r rhwystrau'n gynyddrannol. Mae hyn yn arbennig o drawiadol am fod CaW yn anelu at gynnig cefnogaeth i rieni yn y gymuned hefyd. Ystyriwyd bod estyn allan at y grwpiau anodd eu cyrraedd penodol hyn yn hanfodol i'r Rhaglen Esgyn, a nodwyd y gallai hyn arwain at arbedion anuniongyrchol trwy ddefnyddio llai o adnoddau yn nhermau gwasanaethau cymdeithasol, timau profiannaeth a phlisma. Awgrymodd y gwaith ymchwil hefyd y bu cynghorwyr Esgyn yn llwyddiannus wrth ymgysylltu rhieni anodd eu cyrraedd trwy weithio yn y gymuned.

Rhwysrau ariannol

- 3.39 Gall pobl ifanc wynebu anawsterau am nad oes ganddynt y gallu ariannol i oresgyn rhwysrau i gyflogaeth, fel bod yn berchen ar ddillad priodol ar gyfer gwaith a chyfweliadau, bod â'r offer angenrheidiol i gychwyn gwaith, costau gofal plant a chostau trafnidiaeth i fynychu cyfleoedd hyfforddiant neu gyflogaeth (Llywodraeth Cymru, 2015a). Bwriedir i gronfa rwysrau CaW helpu i oresgyn ffactorau o'r fath.

Oedran

- 3.40 Categori penodol o fewn Blaenoriaeth 1 yw pobl economaidd anweithgar dros 54 oed. Yn sgil ymchwiliad i mewn i Gynorthwyo Pobl Ifanc i Mewn i Waith (Llywodraeth Cymru, 2015a), yn 2014, cyflawnodd Pwyllgor Menter a Busnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru ymchwiliad tebyg i gyfleoedd cyflogaeth ar gyfer pobl dros 50 oed. Canfu nad oedd bron i 36 y cant o bobl 50-64 oed mewn gwaith yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym Medi 2014 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015b).
- 3.41 Dadleuwyd bod y sefyllfa hon yn 'frawychus', disgrifiwyd y bobl dros 50 oed fel 'grŵp sy'n cael ei danbrizio, nad yw'n cael ei werthfawrogi ac sydd, i bob pwrpas, yn ôl-feddwl ar hyn o bryd o ran cynlluniau a mentrau sy'n targedu pobl sy'n dychwelyd i'r byd gwaith'. Er bod y grŵp yma'n gallu wynebu rhwysrau tebyg i unigolion economaidd anweithgar eraill, fel sgiliau isel ac afiechyd, mae pobl dros 50 oed yn fwy tebygol hefyd o ddioddef gwahaniaethu ac ystrydebu negyddol.

4 Y theori newid

- 4.1 Yn y bennod hon, rydyn ni'n ystyried y deilliannau y bwriedir i CaW eu cyflawni a'r ffactorau a ddyluniwyd i sbarduno'r newidiadau angenrheidiol er mwyn gwireddu'r deilliannau hyn. Wedyn rydyn ni'n cyflwyno model rhesymeg cyffredinol ar gyfer theori newid CaW, ynghyd â dau is-fodel ar gyfer â dwy Flaenoriaeth yr ESF.
- 4.2 I gloi, rydyn ni'n cyflwyno sylwadau cryno ar gywirdeb dyluniad y rhaglen yng ngoleuni profiadau blaenorol, ac yn amlygu rhai o'r materion allweddol y gallai'r gwerthusiad hwn eu hystyried.

Deilliannau'r rhaglen

- 4.3 Gwiredidir effaith barhaus CaW (sef lleihau tlodi trwy gyflogaeth gynaliadwy) wrth i'r cyfranogwyr gyflawni deilliannau interim a thymor hir cronol. Cydnabyddir taw'r cyfranogwyr yw'r unigolion hynny sydd bellaf o'r farchnad lafur, ac o ganlyniad, maent wedi eu hymddieithrio'n draddodiadol o wasanaethau cyflogaeth y brif ffrwd. Mae'r tri grŵp o gyfranogwyr targed gyda'r rhai sydd anoddaf eu cyrraedd a'u cynorthwyo yn y gymdeithas.
- 4.4 Cymeradwywyd CaW tan 2018 yn wreiddiol, gyda'r nod o ymgysylltu 41,000 o unigolion, a datblygu 8,000 o'r rhain i mewn i gyflogaeth gynaliadwy. Mae hyn gyfwerth ag ychydig dros un ym mhob pump o'r cyfranogwyr yn cyflawni deilliant caled o ran cyflogaeth gynaliadwy. Ym mis Tachwedd 2016, diogelodd rhaglen CaW estyniad tan 2020, gyda tharged cyffredinol o ymgysylltu 47,500 o gyfranogwyr, a datblygu 10,000 o'r rhain i mewn i gyflogaeth: cymhareb o ychydig yn llai nag un ym mhob pump.
- 4.5 Mae canllawiau'r rhaglen yn ei gwneud yn glir bod y deilliannau cyflogaeth yn seiliedig ar swyddi cyflogedig 'â chontract i weithio o leiaf 16 awr yr wythnos'. Un o oblygiadau hyn yw bod rhaid i'r gyflogaeth fod ar lefel cyflog byw neu'n uwch hefyd.
- 4.6 Fodd bynnag, roedd rhai o'r rhanddeiliaid yn derbyn bod cyfranogwyr CaW yn fwy tebygol o ddatblygu i mewn i swyddi â chyflogau isel/

cychwynnol, o leiaf ar y cychwyn. Yn y cyd-destun hwn, mae'n nodedig bod JRF (2013, t.12) wedi nodi bod 'rhaid swyddi, ac yn aml y rhai sy'n anghymesur o fewn cyrraedd pobl sydd mewn tlodi, neu sydd mewn perygl o dlodi, yn talu cyflogau isel, neu'n ansicr o ran eu natur, sy'n golygu nad ydynt yn darparu digon o incwm i godi'r aelwyd allan o dlodi'. Mae'n briodol felly bod y gwerthusiad yn ystyried effeithiau'r rhaglen ar incwm cyfranogwyr, ac yn benodol a yw'n galluogi unigolion i ddatblygu o fewn eu cyflogaeth i swyddi mwy diogel â gwell cyflogau.

- 4.7 Mae targedau CaW yn awgrymu nad oes disgwyl i 37,500 o'r 47,500 o gyfranogwyr gyflawni'r deiliant caled hwn yn ystod oes y rhaglen. Fodd bynnag, dylai'r cyfranogwyr hyn gael manteision o'r cymorth cofleidiol a holistig y mae CaW yn ei gynnig o hyd, a hynny yn nhermau mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu, a chynyddu eu cyflogadwyedd. Mae cynyddu cyflogadwyedd yn rhoi mwy o hyder i unigolion yn yr hunan-ffeithiolrwydd sydd ei hangen arnynt i ymgysylltu yn y broses o chwilio am waith, yn ogystal â'r sgiliau i ddatblygu i mewn i gyflogaeth yn ddiweddarach.
- 4.8 Fel y trafodwyd yn y bennod flaenorol, bydd cyfranogwyr unigol y CaW yn datblygu ar wahanol gyflymdra am y byddant yn dechrau o wahanol fannau, ac am y bydd ganddynt brofiadau gwahanol o'r farchnad lafur. Gall cyflymdra a natur y cynnydd y maent yn gallu ei wneud fod yn ddibynnol ar eu rhwystrau personol, eu rhwystrau niferus i gyflogaeth, a'u parodrwydd ar gyfer byd gwaith adeg ymuno.
- 4.9 Mae gwerthusiad y rhaglen Awydd i Weithio (y Ganolfan Cynhwysiant Economaidd a Chymdeithasol, 2013) yn darparu cipolwg ar y gwahanol ddeilliannau y gellid eu cyflawni. Yn ôl awduron y gwerthusiad hwn, roedd rhai grwpiau'n fwy tebygol o wireddu deilliannau caled yn nhermau dod o hyd i waith nag eraill: y cyfranogwyr â llai o rwystrau, neu â rhwystrau llai difrifol oedd y rhain fel:
 - y rhai sydd heb anhwylderau iechyd ac anabledau
 - y rhai sydd â chymwysterau lefel uwch
 - y rhai nad ydynt yn hawlio unrhyw fudd-daliadau

- y rhai a oedd wedi bod allan o waith am gyfnodau byrrach.

4.10 Cafodd yr un gwerthusiad bod rhai grwpiau'n fwy tebygol o gyflawni deilliannau meddal nag eraill:

- roedd menywod yn fwy tebygol o [gyflawni'r rhain] na dynion
- roedd gofalwyr a rhieni unigol yn fwy tebygol na phobl nad ydynt yn ofalwyr nac yn rhieni unigol
- roedd y rhai heb salwch sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio neu anabledd yn fwy tebygol na phobl heb salwch neu anabledd o'r fath
- roedd y rhai â chymwysterau lefel is yn fwy tebygol na'r rhai â chymwysterau lefel uwch.

4.11 Fel y nodwyd eisoes, mae'r deilliannau tymor hwy ar gyfer pobl ifanc yn debygol o fod yn wahanol i rai'r oedolion sy'n dod i gysylltiad ag CaW hefyd. Gyda phobl ifanc mae yna fwy o bwyslais ar ail-ymgysylltu ag addysg a hyfforddiant fel rhagflaenydd i gyflogaeth gynaliadwy.

4.12 Mae'r amrywiadau hyn mewn deilliannau yn debygol o godi yn CaW hefyd, ac maent yn awgrymu ei bod hi'n bwysig profi cyflawniad deilliannau interim a therfynol y gwahanol grwpiau o gyfranogwyr trwy'r gwaith ymchwil sylfaenol. Mae'n bwysig hefyd profi'r deilliannau yn ôl natur y cymorth a gafwyd, am y bydd y rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur yn gweithio gyda'r Mentoriaid, ac felly dylid disgwyl deilliannau gwahanol ar eu cyfer.

Y 'Sbardunau Newid' y disgwylir iddynt arwain at ddeilliannau

Cyfeirio

4.13 Mae yna nifer o lwybrau cyfeirio at y rhaglen, a defnyddir nifer o ddulliau i farchnata'r rhaglen. Nod hyn yw sicrhau bod y rhaglen yn denu'r grŵp ehangaf o gyfranogwyr. At hynny, dylai helpu i sicrhau y gall CaW fynnu cyfeiriadau ar gyfer y bobl hynny sydd anoddaf eu cyrraedd. Er enghraifft, cafodd y gwerthusiad o'r rhaglen Awyddus i Weithio (y Ganolfan Cynhwysiant Economaidd a Chymdeithasol, 2013, t. 11) bod perthnasau agos â sefydliadau eraill i greu llwybrau cyfeirio wedi helpu i oresgyn drwgdybiaeth pobl am raglenni'r llywodraeth, eu hofnau am roi'r

gorau i fudd-daliadau, a'u pryderon am beidio â bod yn well eu byd yn y gwaith.

- 4.14 Fodd bynnag, nododd y gwerthusiad o Dwf Swyddi Cymru (Cymru, 2016, t. 79) bwysigrwydd canllawiau clir er mwyn sicrhau bod yr atgyfeiriadau'n addas.
- 4.15 Cafodd y gwerthusiad o'r rhaglen Esgyn bod ansawdd yr atgyfeiriadau'n dibynnu ar berthnasau'r mentoriaid/broceriaid unigol ag asiantaethau cyfeirio allweddol, a bod y rhain yn gallu amrywio'n helaeth rhwng un ardal â'r llall (Esgyn, 2016c, t. 55).
- 4.16 Mae cyflawni targedau o ran deilliannau'n dibynnu ar gyflawni targedau allbwn, sef bod y gwasanaeth yn gallu denu ac ymgysylltu'r nifer gofynnol o unigolion fel y gellir cyflawni'r gymhareb o ddeilliannau caled mewn perthynas â chyflogaeth. Bydd hi'n bwysig bod y gwerthusiad yn asesu effeithiolrwydd cydweithredu lleol mewn perthynas â chyfeiriadau, a'r dulliau o fynd ati i ddenu'r grwpiau targed i'w cyfeirio eu hunain am gymorth.

Canolfannau llai ffurfiol y mae pobl yn ymddiried ynddynt

- 4.17 Mae staff CaW yn cael eu secondio¹³ o gyrff lleol eraill ac yn cyflawni'r rhaglen mewn canolfannau Cymunedau yn Gyntaf, Canolfannau Plant Integredig, canolfannau cymuned, neu ganolfannau priodol eraill sy'n hygyrch ac yn cael eu defnyddio'n dda am amrywiaeth eang o weithgareddau yn y cymunedau lle mae'r cyfranogwyr targed yn byw. Mae'r cyfleusterau hyn 'yn gyfarwydd ac yn hamddenol eu naws', ac maent wedi eu lleoli ar safleoedd 'â brand adnabyddus â hanes rhagorol o ran ymgysylltu cymunedau' (Llywodraeth Cymru, 2015b, t.31).
- 4.18 Nid yw gwasanaethau Cynghorwyr CaW yn cael eu brandio fel rhai sy'n perthyn i JCP, a hynny ar sail y rhagdybiaeth bod hyn yn eu gwneud yn fwy hygyrch i'r bobl hynny sy'n gyndyn i ymgysylltu â chymorth cyflogaeth ffurfiol. Cafodd y gwerthusiad o Awyddus i Weithio bod sefydlu rhaglenni mewn cymunedau lleol yn gallu bod yn 'gryfder mawr'

¹³ Mae unigolion a gyflogir gan sefydliadau partner yn cael eu haseinio i weithio gyda thimau CaW am gyfnod penodedig

wrth ymgysylltu'r bobl hynny sydd anoddaf eu cyrraedd (y Ganolfan Cynhwysiant Economaidd a Chymdeithasol, 2013, t.120).

- 4.19 Mae tystiolaeth yn awgrymu hefyd ei bod hi'n bwysig gweithio gyda phobl ifanc NEET a'r bobl hynny nad ydynt yn ymgysylltu â chymorth ffurfiol o ran cyflogaeth mewn ffordd anffurfiol (NFER, 2009). Yn ôl y Gwerthusiad o'r cynllun peilot i osod Gwasanaethau Cynghori JCP mewn Canolfannau Plant Integredig (ICCs), llwyddodd y cynllun peilot diolch i'w Gynghorwyr Cyflogaeth i Rieni, a oedd yn 'gyfeillgar, yn hawdd mynd atynt ac yn wybodus... yn gweithio'n hyblyg ac yn greadigol' (Foley et al. 2016, t.36).
- 4.20 Un theori y gellir ei brofi fel hyn felly yw i ba raddau y mae pobl yn gweld cymorth CaW yn hygyrch ac yn rhywbeth i'w groesawu am nad yw'n cael ei ddarparu trwy swyddfeydd cyflogaeth ffurfiol (JCP), gan staff sy'n cael eu gweld fel 'swyddogion', a chan ddefnyddio strwythurau sy'n mynnu bod unigolion yn cydymffurfio â rhai gweithdrefnau penodol, ond eu bod yn hytrach, yn wasanaeth llai ffurfiol sy'n cael ei deilwra at eu hanghenion ac sy'n sbarduno eu hyder i ymgysylltu.

Cymorth holistig ac integredig

- 4.21 Yn y cynlluniau busnes, mae Llywodraeth Cymru'n datgan y bydd CaW yn sicrhau 'dull cydlynol o fynd ati gyda'r sefydliadau partner'. Mae hyn yn adeiladu ar ganfyddiad UKCES (2010, t.31) ei bod 'yn bosibl nad yw cynyddu sgiliau cyflogadwyedd ar ei ben ei hun yn ddigon i symud pobl i mewn i gyflogaeth, ac y dylid datblygu sgiliau cyflogadwyedd yn rhan o becyn holistig o gymorth sy'n diwallu anghenion unigol'. Un rhan o'r bwriad o ddefnyddio pobl ar secondiad, a gosod staff mewn canolfannau a rennir yn y gymuned yw sicrhau integreiddiad â gwasanaethau eraill tebyg (Llywodraeth Cymru, 2015b, t.31).
- 4.22 Cafodd y gwerthusiad o'r cynllun peilot i osod Gwasanaethau Cynghori'r Ganolfan Byd Gwaith mewn Canolfannau Plant Integredig y bu partneriaethau cadarn a'r ymdrech aml-asiantaeth yn allweddol i lwyddiant y cynllun (Llywodraeth Cymru 2012, t.38). Cafodd y gwerthusiad o'r rhaglen Esgyn y bu integreiddio â gwasanaethau eraill,

gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf a'i seilwaith, o gymorth wrth ddelio â chyfranogwyr â rhwystrau niferus i gyflogaeth (Llywodraeth Cymru, 2016c, t.37). Fodd bynnag, mae yna dystiolaeth hefyd bod gwendidau mewn partneriaethau lleol yn effeithio ar natur a siâp y cyflawniad, a'r cynnydd y gellir ei wneud (Llywodraeth Cymru, ibid).

- 4.23 Un o'r ystyriaethau wrth werthuso CaW yw profi a yw'r perthnasau rhwng y rhanddeiliaid yn ddigon cadarn i fanteisio ar y cysylltiadau mewn perthynas â chyfeirio pobl, gweithio mewn ffordd gydlynol a defnyddio darpariaeth trydydd parti yn lleol. Yn ystod y cyfweiliadau, dywedodd rhai o'r rhanddeiliaid bod sialensiau'n codi yn yr ardaloedd lle mae'r perthnasau unigol yn wan, yn enwedig rhwng CaW ac Esgyn, am fod gan y ddwy raglen gynulleidfaoedd targed sy'n gorgyffwrdd, ac am fod gan y ddwy eu targedau eu hunain i'w cyflawni. Gallai hyn awgrymu nad oes digon o wahaniaethu rhwng Esgyn a CaW fel bod rhanddeiliaid lleol yn deall gwerth pob un, a'u bod yn cyfeirio cyfranogwyr addas atynt yn unol â hynny.

Beichiau achosion

- 4.24 Mae yna ragdybiaeth y gall cyfeiriadau lleol gael eu bwydo ymlaen i'r Cynghorwyr a'r Mentoriaid trwy'r tîm brysbennu. Fodd bynnag, mae gan staff DWP a staff y Cyrff Cyflawni Arweiniol (LDB) dargedau ar wahân o ran eu baich achosion, a gall hyn olygu bod yna elfen o gystadlu rhwng y tair astell cymorth yma o fewn CaW. Gellid dysgu gwersi pellach am y ffordd orau o fynd ati i sefydlu cydweithredu trwy feithrin gwell dealltwriaeth o oblygiadau bwriadol ac anfwriadol y targedau a bennwyd.

Marchnadoedd llafur lleol

- 4.25 Nod CaW yw targedu datblygiad sgiliau yn ôl anghenion cyflogwyr lleol, a disgwylir i staff CaW feithrin 'gwybodaeth ymarferol am y farchnad llafur leol' trwy weithio mewn cymunedau lleol (Llywodraeth Cymru, 2015c, p.7), casglu gwybodaeth trwy'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ac, yn achos y Cynghorwyr, trwy ryngweithio â

Chynghorwyr Cyflogwyr JCP ¹⁴. Gallai'r gwaith ymchwil sylfaenol archwilio a yw staff CaW yn teimlo eu bod yn ddigon gwybodus am farchnadoedd llafur lleol. Fodd bynnag, mae yna ragdybiaeth ddealledig y bydd dyheadau'r cyfranogwyr yn cyd-fynd â'r cyfleoedd sydd ar gael yn y farchnad lafur leol, ac os na, y gellid negodi â nhw er mwyn eu cysoni â'r cyfleoedd sy'n bodoli mewn gwirionedd. Byddai'n ddiddorol archwilio a yw gwerthfawrogiad cyfranogwyr am beth y mae cyflogwyr lleol yn chwilio amdano'n gwella yn sgil gweithio gyda Chynghorwyr neu Fentoriaid. Byddai'n ddiddorol deall hefyd, ac yn enwedig ymysg y cyfranogwyr ifanc sy'n gallu bod yn fwy symudol, ai marchnadoedd llafur lleol neu'r rhai ehangach yw'r pryder mwyaf. Felly, bydd deall nodau a dyheadau'r cyfranogwyr ar y cychwyn, ac a yw'r rhain yn newid yn sgil yr ymyrraeth ai peidio, yn cynnig dealltwriaeth o effeithiau CaW.

Adnoddau

- 4.26 Yn ôl y cynlluniau busnes gwreiddiol, cyflawnwyd ymarfer pennu cwrdd i glustnodi lefel yr angen o fewn y Clystyrau, a bwydo dyraniad yr adnoddau. Roedd yr ystadegau gan Gymunedau yn Gyntaf, y Swyddfa Ystadegau Gwladol a StatsCymru a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymarfer hwn yn cynnwys: nifer yr aelwydydd heb waith; trigolion 50+ oed; nifer y bobl sy'n hawlio JSA, ESA neu IB; nifer y gofalwyr; nifer y bobl 16-24 oed; BME fel canran o'r boblogaeth; a statws cyflogaeth yn ôl WIMD 2014 (Cymru, 2015b, p.38).
- 4.27 O ganlyniad i'r dadansoddiad hwn, penderfynwyd dyrannu adnoddau tebyg i'r mwyafrif o Glystyrau am fod y dystiolaeth yn awgrymu bod angen cefnogaeth ym mhob ardal. Bydd y gwerthusiad yn ystyried a fu'r dull hwn o fynd ati i ddyrannu adnoddau'n effeithiol yng nghyd-destun y rhaglen.

Brysbennu

- 4.28 Mae'r broses brysbennu'n cynnwys cyflawni asesiad cynnar o bellter unigolyn o'r farchnad lafur, a'i anghenion o ran cymorth felly. Mae hyn yn

¹⁴ Lleolir Chynghorwyr Cyflogwyr yn JCP ac maent yn gweithio gyda chyflogwyr lleol i ddeall anghenion eu gweithlu yn nhermau niferoedd, sgiliau, recriwtio neu gynlluniau diswyddo ac ati.

caniatáu i gleientiaid gael eu cyfeirio at Gynghorwyr, Mentoriaid neu raglenni eraill, fel y bo'n briodol, a sicrhau bod yna faich cytbwys o achosion o fewn timau CaW. Er bod cynlluniau busnes ESF yn awgrymu y rhagwelwyd y byddai'r Gweithwyr Brysbennu'n 'rheoli'r cysylltiad cyntaf trwy gyflawni cam cyntaf yr archwiliadau o gymhwyster yr ESF ac asesiadau lefel isel o sgiliau galwedigaethol' (Llywodraeth Cymru, 2015a, t.32) cyn cyfeirio'r cyfranogwyr ymlaen fel y bo'n briodol, roedd hi'n glir o'n trafodaethau â rhanddeiliaid bod y broses brysbennu'n gweithio ychydig bach yn wahanol yn ymarferol. Derbyniwyd erbyn hyn y gall y Gweithwyr Brysbennu, Cynghorwyr neu'r Mentoriaid gyflawni archwiliadau cynnar o gymhwyster ac asesiadau o anghenion hefyd, er bod yna fwriad o hyd i gyfeirio'r unigolion ymlaen at y math mwyaf priodol o gymorth.

4.29 Mae cynnwys y broses brysbennu'n awgrymu y gellir gwneud asesiad cynnar effeithiol o anghenion cyn cyflawni asesiad diagnostig manwl. Mae hyn yn nodwedd newydd ar gyfer CaW, ac fe'i cyflwynwyd mewn ymateb i ganfyddiadau'r ymgynghoriad yn ystod y broses o gynllunio'r rhaglen. Ni fu'n rhan o'r rhaglenni a'i rhagflaenodd. Dylid archwilio a fydd deall mwy am sut mae'r broses brysbennu'n gweithio, ei gwerth a'i heffeithiolrwydd wrth ddeall pa mor agos yw pobl at y farchnad lafur, ac a yw asesiadau cynnar yn canfod anghenion o ran cymorth yn effeithiol ac yn bwydo deilliannau ai peidio.

4.30 Gellid ystyried hefyd a yw'r swyddogaeth brysbennu'n cynorthwyo Cynghorwyr a Mentoriaid i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol yn sgil cyfeiriadau priodol a phennu beichiau achosion, a thrwy helpu i ysgwyddo rhywfaint o'r baich gweinyddol sy'n gysylltiedig â CaW.

Cymorth ymgynghorol

4.31 Mae'r Cynghorwyr a'r Mentoriaid ar secondiad o'r DWP a'r ALI/LDBs yn y drefn honno. Am eu bod ar secondiad, rhagdybir bod ganddynt rwydweithiau a phartneriaethau o fewn cymunedau eisoes, ynghyd â dealltwriaeth lawn am strategaethau ar gyfer chwilio am swyddi a chyplysu pobl â swyddi (Llywodraeth Cymru, 2015b, t.33). Cyfeiriodd

Tusting a Barton (2007) at bwysigrwydd 'cynghorwyr medrus ac ymroddgar' i allu 'ymchwilio a dod o hyd i gyfleoedd', i 'herio disgwyliadau' ac i ddatblygu 'cynlluniau gweithredu realistaidd'. Mae hi'n debyg bod y nodwedd yma o ddyluniad CaW yn gyson â'r dystiolaeth sy'n bodoli, er bod cyfweiliadau â rhanddeiliaid wedi awgrymu nad yw recriwtio staff wedi bod mor syml â'r disgwyl, a gallai hyn ddwyn goblygiadau o ran y wybodaeth ymarferol a'r rhwydweithiau y bwriedir i staff CaW fod yn meddu arnynt, ac unrhyw gymorth y gallai fod ei angen arnynt yn y dyfodol.

- 4.32 Yn yr un modd, gallai'r amser a gymerir i sicrhau staffio addas ddwyn goblygiadau o ran y llif cychwynnol o gyfranogwyr i mewn i'r rhaglen, ac o ran y deilliannau yn y tymor hwy.
- 4.33 Clustnodir Cynghorydd neu Fentor ar gyfer pob un o gyfranogwyr unigol CaW, gan sicrhau cysondeb yn y cymorth a ddarperir trwy gydol y rhaglen. Y rhagdybiaeth yw y bydd cysondeb o ran Cynghorwyr/ Mentoriaid yn galluogi CaW i ddarparu gwasanaeth sy'n seiliedig ar berthynas ac ymddiriedaeth, a fydd yn galluogi'r cyfranogwyr i ystyried symud tuag at y farchnad lafur, a hynny o bosibl trwy gyflawni gweithgareddau nad oeddent wedi eu hystyried o'r blaen. Mae sail y dystiolaeth yn awgrymu bod cysondeb o'r fath yn ffactor bwysig wrth annog unigolion i wneud cynnydd (e.e. Green a Hasluck, 2009).
- 4.34 Mae pedair cadwyn resymeg CaW yn dangos bod y ffordd y mae Cynghorwyr yn gweithio gydag unigolion yn gallu amrywio rhwng y ddwy flaenoriaeth. O fewn Blaenoriaeth 1 (sy'n cwmpasu oedolion di-waith ac anweithgar yn y drefn honno) disgwylir i'r un Cynghorydd neu Fentor weithio gyda'r unigolyn trwy gydol eu profiad o CaW.
- 4.35 Fodd bynnag, o fewn cadwyni rhesymeg Blaenoriaeth 3, mae'n debyg bod yna ddisgwyliad o drosglwyddo rhwng dau fath o gynghorydd - y Mentor Cyflogaeth Ieuencid a'r Cynghorydd Cyflogaeth Arbenigol. Tynnodd un o'r bobl a oedd yn gyfrifol am lunio'r polisi sylw at y bwriad am i'r trosglwyddo yma ddigwydd yn ystod y cyfweiliadau. Mae'n debyg felly y bwriedir i'r ddwy rôl fwydo i mewn i'w gilydd, yn dibynnu ar y man

cychwyn ac ar y cynnydd y mae pob person ifanc unigol yn ei wneud. Yn yr un modd â Blaenoriaeth 1, bydd y Mentoriaid yn cynorthwyo'r rhai yr ystyrir eu bod bellaf o'r farchnad lafur, gan weithio'n ddwys gyda nhw a chan gaffael darpariaeth a fydd yn galluogi iddynt wneud cynnydd. Wrth iddynt symud yn agosach at y farchnad lafur, caiff y bobl ifanc yma eu cyfeirio at y Cynghorwyr gan y Mentoriaid er mwyn eu galluogi i oresgyn eu rhwystrau terfynol i gyflogaeth a chaffael sgiliau sy'n gysylltiedig â deall y farchnad lafur, sgiliau chwilio am swyddi a'r drefn ymgeisio. Mae yna ddisgwyliad y bydd yna gydweithio â Thwf Swyddi Cymru i gyd-fynd â chyfnod gwaith y Cynghorydd hefyd.

- 4.36 Yn yr un modd â chwmpas CaW, mae 'rhwystrau cymhleth' yn cwmpasu amrywiaeth eang o sialensiau. Mae'r dyluniad yn cymryd bod y gwasanaeth personol y mae cysondeb o ran cymorth Cynghorydd/ Mentor yn ei gynnig yn sbardun pwysig i helpu'r cyfranogwyr i fynd i'r afael â'u rhwystrau penodol a'u goresgyn. Mae'r cynlluniau busnes yn cyfiawnhau teilwra cymorth ar sail gwerth am arian hefyd. Mae sail y dystiolaeth yn awgrymu bod y rhagdybiaeth hon yn ddibynadwy. Er enghraifft, o ran llythrennedd, rhifedd ac iaith, cafodd y Ganolfan Ymchwil a Datblygu Cenedlaethol i Lythrennedd a Rhifedd Oedolion (Trysorfa Dystiolaeth 3, beth sy'n gweithio t.2) bod perthnasau tymor-hir, cadarnhaol, a chefnogol yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd polisïau cyflogadwyedd yn effeithiol. Mae UKCES (ibid) yn datgan bod dulliau wedi eu teilwra, sy'n hyblyg i anghenion cleientiaid, yn arfer dda. Mae'r perthnasau hyn yn annog cyfranogwyr i ystyried syniadau gyrfaoel a mathau o gynnydd nad oeddent wedi eu hystyried o'r blaen:

'Roedd y gwaith ymchwil ansoddol yn pwysleisio'n gadarn ansawdd uchel y gwasanaethau y mae Cynghorwyr Personol yn eu cynnig, gyda'r cwsmeriaid yn nodi bod eu perthynas â'u Cynghorydd Personol yn eu cynorthwyo i drafod eu rhwystrau i waith yn fwy agored. Roedd y cwsmeriaid yn teimlo bod Cynghorwyr Personol yn peri iddynt sylweddoli eu bod yn gallu chwilio am waith mewn meysydd nad oeddent wedi eu hystyried o'r blaen, ac yn eu cynorthwyo i chwilio am waith mewn swyddi roeddent am eu

gwneud yn hytrach na chwilio am unrhyw fath o waith' (Canolfan Cynhwysiant Economaidd a Chymdeithasol, 2013, t.46)

- 4.37 Pwysleisiodd adroddiad cyfranogwyr gwerthusiad y Rhaglen Waith y gwerth yr oedd pobl 'a oedd yn teimlo'n ansicr iawn am eu gallu i weithio, neu a oedd yn teimlo'n bell o'r farchnad lafur oherwydd afiechyd, cyfrifoldebau gofalu, diffyg profiad gwaith a/neu ychydig iawn o sgiliau, addysg neu gymwysterau' yn ei briodoli i 'sylw personol cyson' gan y cynghorwyr. Nododd yr adroddiad bod y cymorth yr oeddent wedi ei gael wedi eu cynorthwyo i gymryd 'camau bychain, a magu hyder a hunan-barch yn raddol' (Adran Gwaith a Phensiynau, 2014a). Cafodd yr adroddiad ar werthusiad Awyddus i Weithio bod safbwyntiau cwsmeriaid am eu Cynghorwyr Personol yn gadarnhaol iawn, gyda chyfraddau boddhad cwsmeriaid o dros 80 y cant. Cafodd y rhaglen ryw effaith hefyd¹⁵ o ran bod 49 y cant o'r cwsmeriaid wedi diogelu o leiaf un awr o gyflogaeth yr wythnos yn sgil eu cyfranogaeth (y Ganolfan Cynhwysiant Economaidd a Chymdeithasol, 2013, t.81).

Cynllunio gweithredu

- 4.38 Yn dilyn yr asesiad manwl, mae disgwyl i Gynghorwyr/Mentoriaid lunio cynlluniau gweithredu ar gyfer pob cyfranogwr '*i roi strwythur a ffocws*' i'w hymdrechion i symud yn agosach at y farchnad lafur (Llywodraeth Cymru, 2015b, t.34). Mae tystiolaeth o werthusiad Awyddus i Weithio yn awgrymu nad oedd y Cynghorwyr yn llunio cynlluniau gweithredu ffurfiol ar gyfer yr hawlwr sydd anoddaf eu cyrraedd. Cwta 45 y cant o'r hawlwr a oedd yn cofio bod â chynllun o'r fath, er bod y rhai a oedd â chynllun yn teimlo eu bod yn werthfawr (t. iii). Cafodd gwerthusiad y rhaglen Esgyn bod eu dulliau o fynd ati i gynllunio gweithredu'n amrywio'n sylweddol rhwng yr ardaloedd cyflawni (t.26). Gallai'r gwaith ymchwil sylfaenol ar CaW ddadansoddi sut y mae prosesau cynllunio ffurfiol a mwy anffurfiol yn helpu gwahanol gyfranogwyr i wneud cynnydd perthynol yn ôl eu mannau cychwyn, a beth a allai fod yn ddisgwyliadau realistaidd o ran eu deilliannau.

¹⁵ Mae hyn yn berthynol i grŵp gwrthffeithiol a gafwyd mewn data gweinyddol nad oedd eu cymhelliant i weithio'n hysbys

Cyfeiriadau

4.39 Ar ôl meithrin dealltwriaeth o anghenion cyfranogwyr unigol, gall staff CaW ystyried eu cyfeirio am hyfforddiant. Daw hyfforddiant o un o dair ffynhonnell:

- hyfforddiant y brif ffrwd sy'n bodoli eisoes yn yr ardal, y mae rhywfaint ohono'n dod o Gymunedau yn Gyntaf, fel cyrsiau 'paratoi am...' a 'llwybrau i gyflogaeth'
- cyfres o gyrsiau cymell a magu hyder sy'n cael eu caffael yn ganolog lle nad oes darpariaeth addas yn bodoli'n lleol
- cyrsiau galwedigaethol penodol, gan gynnwys rhai sy'n galluogi cyfranogwyr i ennill y cymwysterau sydd eu hangen arnynt i ddatblygu i mewn i gyflogaeth e.e. gyrru wagen fforch godi, diogelwch, a gyrru cerbydau nwyddau trwm.

4.40 Y rhagdybiaeth yw y bydd yr hyfforddiant yn gwella eu cyflogadwyedd, a bod gan y Cynghorwyr/Mentoriaid wybodaeth ddigonol am y farchnad lafur leol i fod yn ymwybodol pryd y bydd cyfleoedd yn codi, a'r gallu i frocera cyfranogwyr i mewn hyfforddiant a gwaith addas. Bydd yn bwysig felly deall natur yr hyfforddiant penodol a ddarperir ar gyfer CaW, yn ogystal â hyfforddiant sy'n bodoli eisoes i gyfeirio'r cyfranogwyr ato, er mwyn deall sut y gall hyfforddiant effeithio ar ddeilliannau diweddarach o ran y farchnad lafur.

4.41 Er bod yna dystiolaeth i ategu rhinweddau perthynol pob dull, mae cydbwysedd y dystiolaeth yn awgrymu bod chwilio am waith a lleoliadau gwaith yn cael mwy o effaith am lai o gost yn y tymor byr, tra bod ymyraethau hyfforddiant yn gallu cael gwell effaith yn y tymor hir, yn enwedig pan fo cyfuniad o bryderon am bontio i gyflogaeth a phryderon am ddatblygiad i'r farchnad lafur (Hasluck, 2011, t.iii).

Y gronfa rwystrau

4.42 Mae staff CaW yn gallu cynnig cyllid i oresgyn rhwystrau ariannol i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth. Er enghraifft, gallant ariannu dillad i fynychu cyfweliadau, trafnidiaeth, costau gofal plant, neu

gymwysterau hanfodol. Rhagdybir yn y fan yma bod y rhain yn llesteirio cyflogaeth, a'u bod, i bob pwrpas, yn 'rhwystr terfynol' i gyflogaeth. Cafodd gwerthusiad y rhaglen Esgyn bod y gronfa rwystrau yn ymatebol iawn, a'i bod yn gallu ymateb i rwystrau wrth iddynt godi (Llywodraeth Cymru, 2016c, t.54).

Ymadael â'r rhaglen

- 4.43 Bydd cyfranogwyr CaW yn ymadael â'r rhaglen pan fyddant wedi cael cyflogaeth, er bod cymorth mewn argyfwng ar gael gan y Mentoriaid ar ôl iddynt ymadael ar sail anffurfiol. Nid oes unrhyw fwriad o fewn dyluniad CaW i ddarparu cymorth mewn gwaith ar sail fwy ffurfiol na chymorth posibl mewn argyfwng, a hynny ar gais yn unig. Mae hyn yn cyd-fynd â'r dystiolaeth gyfredol sy'n dangos nad oes gan y cyfranogwyr ddiddordeb mewn cymorth mewn gwaith. Er enghraifft, cafodd y gwerthusiadau o'r rhaglen Awyddus i Weithio a Rhaglen Waith nad oedd fawr o alw amdano, am nad oedd y cyfranogwyr yn awyddus i neb gysylltu â nhw yn ystod oriau gwaith ac am nad oeddent o reidrwydd yn deall pwrpas cysylltiad o'r fath.

Cymorth y tu hwnt i'r deilliannau cychwynnol

- 4.44 Yn y gwerthusiad o'r Rhaglen Waith, ychydig o dystiolaeth oedd yna i awgrymu bod cymorth mewn gwaith yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol, er ei bod hi'n bosibl bod hynny'n deillio o natur y cymorth a gynigiwyd am y gellid dadlau ei fod yn canolbwyntio ar fonitro deilliannau parhaus o ran cyflogaeth, yn hytrach nag ar unrhyw anghenion cymorth oedd gan unigolion (yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2014a). Yn y gwerthusiad o'r Rhaglen Esgyn, dywedodd cyflogwyr bod parodrwydd y cyfranogwyr am y byd gwaith yn gyfyngedig, a bod arnynt angen cymorth parhaus mewn perthynas â phresenoldeb, prydlondeb a'u hagwedd. Mae hyn am fod cyflogwyr yn teimlo bod cyflawni'r pethau hyn y tu hwnt i'w cylch gorchwyl. Yn debyg i ganfyddiadau'r Gwerthusiad o Gynlluniau Peilot y Cytundeb Dysgu (Maguire et al, 2009) gallai hyn ddynodi bod yna ofyniad am i'r Mentoriaid roi mewnbwn i gyflogwyr o ran anghenion y cyfranogwyr er mwyn creu amgylchedd gwaith ystwyth.

Mae'n bosibl hefyd y bydd yna le ar gyfer eiriolaeth barhaus rhwng y cyfranogwyr (pobl ifanc yn benodol) a'u cyflogwr (Cynllun Peilot y Cytundebau Dysgu; Maguire et al, ibid). Cafwyd y bu hyn o gymorth wrth gymodi pan oedd perthnasau dan straen a phan nad oedd pobl ifanc yn gallu mynegi'r sialensiau roeddent yn eu hwynebu wrth fynd i'r gwaith¹⁶.

- 4.45 Wrth anelu at sicrhau cyflogaeth gynaliadwy, mae datblygiad o fewn cyflogaeth yn debygol o fod yn bwysig, a bydd yn alinio'n gadarn â'r Polisi Credyd Cynhwysol. Wrth gyfeirio at Gynllun Cyflogaeth arfaethedig Llywodraeth Cymru, dywedodd y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth 'nad yw canolbwyntio ar gael pobl i mewn i waith yn unig yn ddigon. Mae angen sicrhau bod unigolion yn cael cyflogaeth weddus a chynaliadwy a'u bod yn datblygu i mewn i swyddi diogel ac oddi mewn iddynt' (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2016). Mae gwerthusiad Awyddus i Weithio yn cynnig rhywfaint o dystiolaeth gadarnhaol yn hyn o beth, o ran bod: '18% wedi cael codiad cyflog gan eu cyflogydd cychwynnol, 16% wedi symud i waith â chyflog gwell, 7% wedi cael dyrchafiad, 19% yn dweud eu bod mewn swydd well na'r un a gawsant ar ôl cael cymorth Awyddus i Weithio' (Canolfan Cynhwysiant Economaidd a Chymdeithasol, 2013). Mae'n bwysig nodi yn hyn o beth y bu'r rhai a oedd mewn mathau penodol o swyddi'n fwy ac yn llai tebygol o wneud cynnydd nag eraill.
- 4.46 Er nad yw dyrchafiad yn un o nodau penodol CaW, byddai'n ddefnyddiol profi datblygiad yr is-grwpiau o gyfranogwyr yn y gwaith er mwyn deall yn well effeithiau tymor hwy'r rhaglen, a'r cysylltiad rhwng hyn a mathau penodol o waith.
- 4.47 Er nad oes llawer o waith ymchwil hydredol o safon uchel ar gael yn hyn o beth, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod cadw cyflogaeth gychwynnol yn broblem ar gyfer rhai grwpiau cymdeithasol-ddemograffaid wrth roi'r gorau i fudd-daliadau: er enghraifft y rhai â chymwysterau isel a rhieni unigol. Mae ymchwil yn awgrymu bod hyn yn wir am leiafrif sylweddol ar lefel fwy cyffredinol; er enghraifft mae un ym

¹⁶ Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, mynd yn ddigartref a gorfod cysgu ar soffas pobl eraill

mhob pump o hawlwyr y Lwfans Ceiswyr Gwaith yn hawlio'r budd-dal eto ymhen 13 wythnos, a dau ym mhob pump yn ei hawlio eto cyn pen chwe mis.

Ffactorau allanol a rhwystrau posibl


- 4.48 Bydd y berthynas rhwng CaW, Cymunedau yn Gyntaf a rhaglenni cysylltiedig eraill (fel Esgyn) yn hanfodol i gyflawniad CaW. Mae'n bosibl y bydd yna amrywiaeth rhwng y clystyrau oherwydd perthnasau rhwng unigolion (Llywodraeth Cymru, 2016c, t.38). Er enghraifft, cododd timau Esgyn ofnau am CaW ar y sail y gallai arwain at ddyblygu gwaith a gwthio'u gwasanaeth nhw i'r cyrion. Mae'r dangosyddion cychwynnol yn awgrymu nad oes yna sail i'r ofnau hyn - yn anecdotaidd, mae cyfeiriadau at Esgyn wedi cynyddu ers lansio CaW. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yna densiynau cystadleuol rhwng rhaglenni os nad ydynt yn cael eu rheoli'n effeithiol (ibid).
- 4.49 Mae clustnodi cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant mewn ardaloedd mwy anghysbell yn gallu bod yn her. Rhoddodd gwerthusiad y rhaglen Esgyn (ibid, t. 31) esiampl lle'r oedd cwmni adeiladu wedi cynnig cyfleoedd, ond nid oeddent yn hygyrch i'r cyfranogwyr am nad oeddent yn berchen ar gerbydau, ac am fod cysylltiadau cludiant cyhoeddus yn wael. Yn wir, un o nodweddion allweddol dyluniad CaW yw cyfres o hyfforddiant sy'n cael ei gaffael yn ganolog, sy'n gallu cael ei ryddhau pan nad oes modd cyrchu darpariaeth addas yn lleol. Ynghyd â hyn, mae'r gronfa rwystrau ar gael i helpu i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â chymryd rhan mewn hyfforddiant (e.e. costau teithio a llety) lle byddai costau o'r fath yn atal unigolion rhag gwneud hynny fel arall.
- 4.50 Awgrymodd gwerthusiad Twf Swyddi Cymru (Llywodraeth Cymru, 2016, t.104) y gallai hunangyflogaeth fod yn bosiblwydd i bobl mewn ardaloedd gwledig yn hytrach na gweithio dros gyflogwr. Yn ystod y cyfweiliadau, dywedodd un person ei fod yn disgwyl i ddaearyddiaeth ac economïau lleol effeithio ar ddeilliannau'n fwy na'r 'math o gyfranogwr', a bod diffyg cludiant cyhoeddus - yn enwedig i bobl sy'n gweithio shifftiau - yn rhwystr sylweddol.

- 4.51 Nododd gwerthusiad Twf Swyddi Cymru y bydd yn bwysig gweithio i leihau pwysau diangen ar y rhaglen wrth i'r adferiad economaidd afael, a hynny naill ai trwy ganolbwyntio ar bobl ifanc dan anfantais a fyddai'n llai tebygol o gyrchu cyfleoedd gwaith, neu trwy leihau'r cyfraddau cyffredinol ar gyfer ad-dalu cyflogau wrth i'r pwysau economaidd ar gyflogwr lacio (ibid. t.9).


Theori Newid/Modelau Rhesymeg Cymunedau am Waith

- 4.52 Mae'r adran hon yn cyflwyno model cyffredinol ar gyfer y rhaglen CaW, ynghyd â dau fodel ar wahân mewn perthynas â phobl sydd wedi bod yn ddi-waith ac yn economaidd anweithgar yn y tymor hir (Blaenoriaeth 1 ESF) a phobl ifanc NEET (Blaenoriaeth 3 ESF). Seilir y modelau hyn ar y dystiolaeth a gyflwynwyd uchod, a'u nod yw dangos datblygiad disgwyledig y cyfranogwyr trwy CaW trwy ddeilliannau interim, tymor byr a chanolig, ac ymlaen i ddeilliannau cadarn tymor hwy. Mae'r modelau'n clustnodi'r amrediad o ragdybiaethau sy'n darparu'r sylfaen ar gyfer y rhaglen, ac y bydd y gwaith ymchwil sylfaenol yn eu profi yn ystod camau nesaf y gwerthusiad.


Ffigur 4.1: Model Theori Newid Cyffredinol Cymunedau am Waith



Ffigur 4.2: Echel Blaenoriaeth 1 Cymunedau am Waith – Trechu Tlodi trwy Ddatblygu Cynaliadwy – Model y Theori Newid



Ffigur 4.3: Echel Blaenoriaeth 2 Cymunedau am Waith – Cyflogaeth (a Chyflawniad) leuenctid – Model y Theori Newid



Cywirdeb Theori Newid CaW

- 4.53 Trwy gydol y bennod, amlygir amryw o theoriâu a rhagdybiaethau sy'n deillio o ddyluniad CaW, a'r dystiolaeth ategol sy'n sylfaen i lawer o'r rhain. Mae hi'n amlwg y dysgwyd gwersi o raglenni blaenorol, a ddylai olygu y gall CaW gyflawni llawer o'r amcanion a bennwyd ar ei gyfer.
- 4.54 Er enghraifft, mae yna dystiolaeth gadarn o blaid darparu cymorth cyson trwy un cynghorydd y mae unigolyn yn ymddiried ynddo. Felly, mae trefnu llwyth achosion o fewn CaW, a chaniatáu ar gyfer personoli'r gwasanaeth yn sgil hyn yn fecanwaith sydd wedi cael ei brofi ac y gellir cyflawni deilliannau drwyddo.
- 4.55 Yn yr un modd, mae yna dystiolaeth gadarn bod gwaith holistig ac integredig yn effeithiol, a'i fod yn gallu cynorthwyo'r bobl anoddaf eu cyrraedd trwy ei ddarparu mewn canolfannau y mae pobl yn ymddiried ynddynt, fel canolfannau Cymunedau yn Gyntaf a Chanolfannau Plant Integredig.
- 4.56 Mae yna sail resymegol gref dros dargedu'r rhaglen yn y modd yna, ond mae'r dyluniad wedi cael ei yrru hefyd gan yr angen am iddi gyd-fynd â strwythurau ariannu'r ESF. Er eu bod yn wynebu'r un rhwystrau'n aml, mae anghenion unigolion yn debygol o amrywio, yn yr un modd â'u mannau cychwyn. Mae'r gallu i fynd i'r afael â'r amrywiaeth yma o anghenion trwy feithrin perthnasau personol ac ymgynghorol wedi hen ennill ei blwyf, ac nid yw'n dangos nac yn rhagdybio bod ar bob grŵp angen yr un cymorth neu gymorth arbenigol.
- 4.57 Yn ogystal, mae'n hysbys bod ymyrryd i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n wynebu pobl ifanc NEET i'w galluogi i bontio'n well yn gallu dwyn manteision economaidd a chymdeithasol anhygoel o'u cymharu â'r costau sy'n deillio o'r statws hwn.
- 4.58 Peth sy'n llai hysbys yw a all y cysyniad o frysennu weithio'n effeithiol, am fod hyn yn nodwedd newydd o'r rhaglen. Yn yr un modd, ni wyddom pa mor effeithiol fydd hyn wrth gyfeirio adnoddau er mwyn sicrhau cost-effeithiolrwydd.

- 4.59 Peth arall sy'n llai sicr yw a all y mecanweithiau cyfeirio gynhyrchu'r lefel ddisgwyliedig o alw a fydd yn arwain at gyflawni'r deilliannau targed.
- 4.60 Testun ansicrwydd pellach yw i ba raddau y bydd cyd-destunau lleol yn effeithio ar gyflawniad. Mae yna rywfaent o dystiolaeth y gallai fod yna wahaniaeth yn y ddarpariaeth drefol/gwledig, ac yn enwedig yng nghyd-destun gwahanol gyfleoedd yn y farchnad lafur. Testun pryder mwy yw'r dystiolaeth fod perthnasau lleol yn amrywio, a lle bo'r rhain yn llai cydweithredol, gallai hynny darfu ar gyflawniad effeithiol. Bydd hyn yn fater penodol i'w archwilio yn Rhan 2 o'r gwerthusiad ar 'brosesau'.
- 4.61 Fodd bynnag, mae'r theorïau sydd wrth wraidd CaW i'w gweld yn seiliedig ar resymeg rhaglennu gadarn, ac maent yn adeiladu ar sylfaen y dystiolaeth.

Goblygiadau'r theori newid o ran yr ymchwil

- 4.62 Rhestrir rhai o'r theorïau a'r rhagdybiaethau sy'n gynhenid i ddyluniad y rhaglen ac a fydd yn bwydo'r gwaith ymchwil sylfaenol isod:
- bod yna ddigon o gyfeiriadau a hunan-gyfeiriadau sy'n deillio o ymgyrchoedd marchnata a gwaith i ymgysylltu rhanddeiliaid lleol yn y gwaith cyflawni. Os oes nifer ddigonol o gyfranogwyr yn deillio o'r ffynonellau hyn, bydd modd cyflawni'r deilliannau targed
 - mae pobl sy'n cymryd rhan yn y rhaglen o'u gwirfodd o leiaf yn agored i'r posibilrwydd y gallant ddatblygu i mewn i waith; o ran eu hagwedd, maent yn teimlo y gallai gwaith fod yn bosibl, ac hyn sydd wrth wraidd eu hymgysylltiad
 - mae gan staff ar secondiad brofiad o'r milltir sgwâr ac o ddarparu mentrau fel CaW, ac felly bydd y cyfranogwyr yn eu gweld fel rhai gwybodus y gellir ymddiried ynddynt
 - mae gweithio mewn canolfannau llai ffurfiol yn creu gwell ymddiriedaeth er mwyn hwyluso ymgysylltiad yr hawlwyr sydd anoddaf eu cyrraedd
 - mae brysbennu'n darparu asesiad cynnar effeithiol o anghenion sy'n dyrannu'r math gorau posibl o gymorth i'r unigolion. Mae'r gallu

i symud rhwng mathau o gymorth yn goresgyn unrhyw achosion o gam-ddyrannu

- mae'r swyddogaeth brysbennu yn rhyddhau'r Cynghorwyr a'r Mentoriaid i weithio gyda'r cyfranogwyr yn hytrach na bod o dan bwysau gweinyddol.
- bydd y mwyafrif o'r grŵp targed yn gweithio gyda Chynghorwyr. Mae hyn yn rhagdybio bod ar y mwyafrif angen cymorth sy'n gysylltiedig â gwaith, a gweithgarwch sy'n gysylltiedig â gwaith, er mwyn gwneud cynnydd tuag at y farchnad lafur
- bydd ar grŵp llai angen cymorth dwys gan Fentor. Gan weithio gydag asiantaethau trydydd parti, bydd Mentoriaid yn gallu clustnodi eu hanghenion a llunio rhaglen o gymorth a fydd yn eu datblygu tua'r farchnad lafur. Yn achos pobl ifanc, bydd Mentoriaid leuentid yn cyflawni asesiadau effeithiol o ran pryd y mae cyfranogwyr ifanc yn barod i gael eu cyfeirio ymlaen at gymorth sy'n gysylltiedig â gwaith er mwyn goresgyn eu rhwystr terfynol i ddatblygiad
- bydd angen i bobl ifanc NEET yn benodol gaffael cymwysterau a sgiliau i'w paratoi ar gyfer cael gwaith cynaliadwy. Felly gall eu deilliannau tymor hwy gynnwys hyfforddiant fel cam hanfodol tuag at gael a chadw cyflogaeth
- gellir diogelu hyfforddiant priodol a fydd yn galluogi'r cyfranogwyr i ddatblygu, naill ai trwy'r ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes neu trwy gaffael
- bydd gan unigolion wahanol bwyntiau cychwyn a gwahanol anghenion, a bydd y rhain yn effeithio ar ac yn pennu'r cynnydd y gellir ei gyflawni;
- gellir cael manteision o gyfranogaeth yn niffyg cyflawni'r deilliant dymunol (cyflogaeth barhaus). Gall cyfranogwyr unigol gael manteision annisgwyl o fynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau cymhleth sy'n eu hwynebu, neu bob un ohonynt. At hynny, gall cyfranogaeth yn CaW ddwyn effeithiau pellach ar gyfer teuluoedd y cyfranogwyr.

- 4.63 Nod cyffredinol CaW yw datblygu'r bobl hynny sydd bellaf o'r farchnad lafur i mewn i gyflogaeth. Mae prif darged y rhaglen o ran deilliannau, sy'n mesur sefyllfa unigolion yn syth ar ôl ymadael â CaW, yn adlewyrchu hyn. Fodd bynnag, mae cynaliadwyedd deilliannau cyflogaeth yn thema sy'n codi dro ar ôl tro yng nghynlluniau busnes CaW a Rhaglenni Gweithredol ESF, sy'n adlewyrchu uchelgeisiau ehangach o ran polisiau cyflogaeth a threchgu tlodi. Nod yr arolwg o gyfranogwyr ESF (sy'n offeryn allweddol wrth asesu effaith rhaglenni'r Gronfa Strwythurol) yw asesu statws yr ymatebwyr o ran cyflogaeth chwe mis ar ôl ymadael ag ymyraethau penodol fel CaW. Mae'r arolwg yn ceisio canfod hefyd a yw'r unigolion sydd mewn cyflogaeth wedi bod yn yr un swydd neu wedi symud o un swydd i'r llall ers ymadael, natur eu contractau cyflogaeth, eu horiau gwaith a'u henillion.
- 4.64 Dylai'r data o'r arolwg o gyfranogwyr yr ESF ddarparu darlun o ran i ba raddau y mae CaW yn darparu llwybr i gyflogaeth gynaliadwy, a hynny o bosibl gan ddefnyddio'r diffiniadau o 'gynaliadwy' y mae dangosydd cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn eu cyfleu, y 'canran o bobl sydd mewn cyflogaeth, sydd ar gontractau parhaol (neu ar gontractau dros dro ac nad ydynt yn chwilio am gyflogaeth barhaol) ac sy'n ennill mwy na 2/3 o gyflog canolrifol y DU' (Llywodraeth Cymru, 2016a, p.2). Dylai modiwl penodol CaW o fewn arolwg cyfranogwr ESF ddarparu darlun o'r deilliannau 'meddal' neu 'canolig' y mae cyfranogwyr yn eu cyflawni, dim ots a ydynt yn datblygu i mewn i gyflogaeth yn y tymor byr ai peidio. Mae'r rhain yn cynnwys dangosyddion o newid yng ngwytnwch personol yr unigolion, fel eu bod yn teimlo 'bod mwy o gymhelliant ganddynt i chwilio am waith', eu bod yn 'gallu ymdopi'n well â'r pethau a oedd yn ei gwneud hi'n anodd ... dod o hyd i waith', 'yn fwy medrus, ac yn benodol yn nhermau'r sgiliau sydd eu heisiau ar gyflogwyr lleol' a'u bod 'yn fwy hyderus... am eu rhagolygon o ran cyflogaeth neu yrfaeodd'.

4.65 Yn olaf, mae CaW yn cael ei weithredu yn erbyn cefndir polisi sy'n esblygu, a bydd angen i'r gwerthusiad ystyried effeithiau datblygiadau allweddol fel diddymu'n raddol Cymunedau yn Gyntaf, ynghyd â dull newydd o fynd ati i sicrhau Cymunedau Cryf, a chyflwyniad Cynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru.

Cyfeiriadau

ACEVO (2012), Youth Unemployment: The Crisis We Cannot Afford.

Comisiwn ACEVO ar Ddiweithdra Ieuencid

Barnes, M., Lord, C. (2013), *Poverty, Economic Status And Skills: What Are the Links?* York: Sefydliad Joseph Rowntree

Belfield, C., Cribb J., Hood, A., Joyce, R. (2015), *Living Standards, Poverty and Inequality in the UK: 2015*, Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid

Browne, J. a Paull, G. (2010), *Parents' work entry, progression and retention and child poverty*. Adroddiad Ymchwil Rhif 626 yr Adran Gwaith a Phensiynau

Browne, J. (2015), Effaith diwygiadau Llywodraeth y DU ym meysydd treth, lles ac isafswm cyflog yng Nghymru, y Sefydliad Astudiaethau Cyllid

Swyddfa'r Cabinet (2010), Adroddiad Cyflwr y Genedl: Poverty, Worklessness and Welfare Dependency in the UK

Y Ganolfan Cynhwysiant Economaidd a Chymdeithasol (2013), *Gwerthusiad o Awyddus i Weithio: Yr Adroddiad Terfynol*.

Daguerre, A., Etherington, D. (2009), *Active Labour Market Policies in International Context: What Works Best? Lessons for the UK*. Papur Gwaith Rhif 59 yr Adran Gwaith a Phensiynau

Devins, D. Bickerstaffe, T., Nunn, A., Mitchell, B. (2011), Adroddiad Tystiolaeth 38: The Role of Skills from Worklessness to Sustainable Employment with Progression, UKCES

Adran Gwaith a Phensiynau (2010), *Universal Credit: Welfare that Works*

Adran Gwaith a Phensiynau (2012), *The Work Programme*

Adran Gwaith a Phensiynau (2014), *Work Programme Evaluation: Operation of the Commissioning Model, Finance and Programme Delivery*

Adran Gwaith a Phensiynau (2014a), *The Work Programme Evaluation: the participant experience report*

Department for Work and Pensions (2016), *Ystadegau'r Credyd Cynhwysol: Data hyd 10 Tachwedd 2016*

Y Comisiwn Ewropeaidd (2010), *Europe 2020: A Strategy for Smart, Sustainable and Inclusive Growth*

Green, A., Hasluck, C. (2007), *What Works for Whom? A Review of Evidence and Meta-analysis for the Department for Work and Pensions*

- Hasluck, C. (2011), *Low Skills and Social Disadvantage in a Changing Economy*, Cyfres Papurau Briffio UKCES
- Johnson, H., Thomas, G. (2016), 'Gwaith, lles a thlodi', *Materion allweddol ar gyfer y Pumed Cynulliad*, Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, t. 83-85
- Maguire, S., McKay, E. (2015), *Young, Female & Forgotten?* Sefydliad Ymchwil Polisi, Prifysgol Caerfaddon
- Maguire, S., Newton, B., Bates, P., Huddleston, P., Levesley, T., Miller, L., Munro, M., Usher T. (2009), *Learning Agreement Pilots: Evaluation of the 2008-2009 extension*, Adroddiad Ymchwil 202 yr Adran dros Blant, Ysgolion a Theuluoedd
- Meadows, P. (2006), *What works with tackling worklessness?*, Asiantaeth Datblygu Llundain,
http://www.london.gov.uk/mayor/economic_unit/docs/worklessness.pdf
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru(2012), *Cynllun Cydraddoldeb Comisiwn y Cynulliad 2012-2016*
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2015a), *Helpu Pobl Ifanc i Gael Gwaith*
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2015b), *Cyfleoedd Cyflogaeth i Bobl dros 50 oed*
- National Assembly for Wales (2016), Cofnod y Trafodion 15/11/2016, *Datganiad: Cyflogadwyedd*
- Newton, B., Hurstfield, J., Miller, L., Bates, P. (2005), *Training a Mixed-Age Workforce: Practical Tips and Guidance*. APG5, Y Grŵp Partneriaeth Oedran, Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Newton, B., Buzzeo, J., Marvell, R., Snowden, E., Broughton, A. (2016), *Intensive Activity Programme trial evaluation: Claimant research*, Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Newton, B., Sainsbury, R. (ar y gweill), *ESA Reform Trials: A Synthesis of Qualitative Research with Claimants*, DAdran Gwaith a Phensiynau (DWP)
- Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (2009) *Non-formal learning: good practice in re-engaging young people who are NEET*
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2014), *Cyfrifiad 2011: Cymwysterau a chyfranogaeth yn y farchnad lafur yng Nghymru a Lloegr*
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2015), *Iechyd Oedolion ym Mhrydain Fawr, 2013*

- Smyth, E., McCoy, S. (2009). Investing in education: Combating educational disadvantage. Cyfres Ymchwil ESRI 006. Wedi ei gomisiynu gan Barnardos Dulyn: Y Sefydliad Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol.
- Tinson, A., MacInnes, T. (2015), *Monitro Tlodi a Dieithrwch Cymdeithasol yng Nghymru 2015*, Sefydliad Joseph Rowntree
- Tusting, K., Barton, D. (2007), *Programmes for unemployed people since the 1970s: the changing place of literacy, language and numeracy*, Y Ganolfan Ymchwil a Datblygiad Cenedlaethol ar gyfer Llythrennedd a Rhifedd Oedolion
- Belt, V., Drake, P., Chapman, K., (2010), *Employability Skills: A Research and Policy Briefing*, Cyfres Papurau Briffio UKCES
- Waddell, G., Burton, A.K. (2006), *Is Work Good for Your Health and Well-Being?* TSO Llundain
- Llywodraeth Cymru (2012), *Gwerthusiad o wasanaethau cyngori'r Ganolfan Byd Gwaith mewn Canolfannau Plant Integredig Ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf*
- Llywodraeth Cymru (2012a), *Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi 2012-2016*
- Llywodraeth Cymru (2012b), *Cynllun ac Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2012-2016: Gweithio dros Gydraddoldeb yng Nghymru*
- Llywodraeth Cymru (2012c), *Gwerthusiad o wasanaethau cyngori'r Ganolfan Byd Gwaith mewn Canolfannau Plant Integredig Ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf*
- Llywodraeth Cymru (2013a), *Y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid*
- Llywodraeth Cymru (2013b), *Datganiad Ystadegol Cyntaf: Cyfranogaeth Pobl Ifanc mewn Addysg a'r Farchnad Lafur (diwedd blwyddyn 2011 a 2012)*
- Llywodraeth Cymru (2014a), *Cynllun Gweithredol Cronfa Gymdeithasol Ewrop yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd*
- Llywodraeth Cymru (2014b), *Cynllun Gweithredol Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn Nwyrain Cymru*
- Llywodraeth Cymru (2015a), *Cynllun Busnes 2014-2020: Blaenoriaeth 1 Cymunedau am Waith Gorllewin Cymru a'r Cymoedd*
- Llywodraeth Cymru (2015b), *Cynllun Busnes 2014-2020: Cymunedau am Waith*
- Blaenoriaeth 1 Dwyrain Cymru*

Llywodraeth Cymru (2015c), *Cynllun Busnes 2014-2020: Cymunedau am Waith*

Blaenoriaeth 1 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd

Llywodraeth Cymru (2015d), *Strategaeth Tlodi Plant Cymru*

Llywodraeth Cymru (2016), Gwerthusiad o Dwf Swyddi Cymru: Yr Adroddiad Terfynol.

Llywodraeth Cymru (2016a), *Sut mae mesur cynnydd cenedl? Dangosyddion Cenedlaethol Cymru: Dangosyddion Cenedlaethol Cymru yn unol â gofynion adran 10(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*

Llywodraeth Cymru (2016b), *SPSF 1: Canllawiau craidd: Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol: Canllawiau Statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*

Llywodraeth Cymru(2016c), *Gwerthusiad o Raglen Esgyn, Cyfnod 2 - Astudiaeth Weithredu: Ffurff strwythurol ac ymarfer gweithredol Esgyn*

Llywodraeth Cymru (2016d), *SPSF 1: Canllawiau craidd: Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol: Canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*